# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 454 | Medi 2024 | Pris £1.50


## FFERMWR LLEOL YN ENNILL GWOBR SYR BRYNER



Mae amaethwr sy'n ffermio yn ardal y Cardi Bach wedi ennill un o brif wobrau amaethyddol Cymru. Fel un o anrhydeddau mwyaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, mae Gwobr Goffa Syr Bryner Jones yn un fawr iawn ei bri, a'r enillydd eleni oedd Aled Evans, Fferm Rest, Henllan Amgoed. Mae Aled yn ffermio 225 hectar ar dri safle mewn partneriaeth deuluol, sy'n cwrdd yn ffurfiol yn fisol i drafod cynnydd yn erbyn targedau.

Gorwedd y tir ar uchder o 140 metr gyda glawiad blynyddol o 1350mm. Mae gan y glaswelltir mwyfwy o amrywiaeth o ran rhywogaethau, a rheolir y pori i sicrhau cylchdroadau hirach o 30 i 100 o ddiwrnodau, yn dibynnu ar adeg y flwyddyn. Caiff iechyd y tir ei asesu'n barhaus, ac yn lle aredig mae nawr yn drilio'n uniongyrchol ar gyfer cnydau porthi. Mae'r tir yn cael ei droi cyn lleied ag sy'n bosib ac mae mesur twf y glaswellt yn rheolaidd yn bwysig wrth wneud penderfyniadau rheoli. Gwneir y silwair ar ddiwedd Mai, a silwair o'r ansawdd gorau yw'r nod.

Mae'r system bîff yn seiliedig ar brynu yn y gwanwyn rhyw 300-500 o loi o fuchesi llaeth, allan o deirw Angus, Henffordd neu Stabiliser. Daw'r lloi o dair fferm sydd ag arferion rheoli da mewn perthynas ag iechyd lloi a cholostrwm, ac mae hyn yn lleihau risg heintiau. Felly bydd o leiaf 600 o wartheg ar y fferm yn ystod y cyfnod pori. Mae'r praidd defaid yn cynnwys dros 300 o ddefaid Primera x Romney a Chymreig x Aberfield, sy'n wyna tu allan yn Ebrill.

Mae Aled wedi arddel egwyddorion ehangach adfywio neu 'regen', gan gynnwys gwneud lle i natur a chasglu data i ddangos cynnydd. Defnyddir data (boed ynghylch carbon, DLWG da byw, costau, rhifau adar, neu iechyd y tir) i ategu penderfyniadau. Sicrhaodd achrediad a llwybr i'r farchnad i gael premiwm ar gyfer cyfran o'i allbwn, ac mae wrthi'n gweithio'n ddiwyd ar yr agwedd hon. Mae Aled yn angerddol dros gyfleu egwyddorion 'regen' drwy groesawu ymweliadau gan ysgolion, grwpiau bywyd gwyllt, a chigyddion.

Yr hyn mae Aled wedi'i wneud yw rhoi system ar waith sydd eithaf syml yn y bôn, a honno'n system fusnes broffesiynol sy'n gweithio'n dda, gan roi pwyslais ar leihau costau ac ychwanegu gwerth. Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd ym mro'r Cardi Bach yn ymfalchïo yn llwyddiant Aled ac am ei longyfarch yn fawr, gan ddymuno'r gorau iddo am ddegawdau i ddod.

### Pwysig

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach, prynhawn Sul, Hydref 20fed am 4 o'r gloch yng Nghanolfan Hywel Dda. Mae'n gyfarfod pwysig a gofynnir yn garedig am bresenoldeb gohebwyr ac unrhyw un â diddordeb yn nyfodol y papur. Bydd angen gwirfoddolwyr i helpu dosbarthu a chasglu hysbysebion Nadolig.**

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd:** | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com



Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

**Arwr**

Pan roedd y mab ieuengaf tua 10 oed, fe ofynnodd y Parchedig Rhodri Glyn Thomas i griw yr Ysgol Sul yng Nghapel Bethlehem, Pwll-trap pwy oedd eu harwr. Fe saethodd llaw fy mab i fyny, ac er mawr syndod i fi a'r gweinidog, nid y Power Rangers, Batman neu Gareth Bale oedd ei ateb. 'Dewi Pws!' meddai yn llawn brwdfrydedd.

Roedd Dewi Pws ar y sgrin ac ar donfeddi'r radio, pan roeddwn i yn lodes fach. Miri Mawr oedd un o'r rhaglenni cyntaf i fi wylio yn blentyn ymhell cyn dyddiau S4C, ag yntau'n chwarae rhan y Dyn Creu, er gwylio y tu cefn i'r soffa fyddwn i'n ei wneud, am mod i ofn y cymeriad Caleb.

Rydw i'n cofio Dewi Pws yn chwarae rhan Wayne Harries ar S4C, unwaith eto cyn dyddiau S4C, ac yn cofio'i ymatebion slic a ffraeth ar y rhaglen banel Dros Ben Llestri ar Radio Cymru.

Pan roeddwn i yr un oed â'r mab pan gododd ei law yng Nghapel Bethlehem, roedd Torri Gwynt ar y sgrin fach, ac yna yn nyddiau coleg, roedd Hapus Dyrfa yn un o'r cyfresi y byddem yn ei gwylio yn wythnosol.

Roedd caneuon y Tebot Piws ac Edward H Dafis wrth gwrs yn y cefndir ar y set radio trwy fy mhlentyndod, ac yn ystod gig olaf Edward H yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013, roedd y dorf yn gymysgedd rhyfeddol o bensiynwyr, bobol canol oed, a phobl ifanc a phlant, gyda'r to iau yn profi perfformiad byw gan y band am y tro cyntaf ac am y tro olaf. Ac yn y rhes flaen, roedd fy meibion yn eu plith.

Roedd y newyddion fis diwethaf fod Dewi Pws Morris wedi'n gadael mor sydyn yn ergyd greulon. Ac mae'r cannoedd ar gannoedd o deyrngedau iddo yn brawf o'i boblogrwydd ymhlith pob cenhedlaeth. Ac mae hynny'n rhywbeth prin iawn yn yr oes hon. A phan ddaw'r cwestiwn "Pwy yw eich arwr?" dyw Cymry Cymraeg ddim o reidrwydd ar frig y rhestr honno.

Ond Dewi Pws oedd ateb y mab, heb unrhyw oedi. Ac wrth weld ei arwr yng Ngŵyl Nôl a Mla'n yn Llangrannog, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol droeon, roedd y wên lydan ar ei wyneb yn dweud y cyfan.

Do, fe lwyddodd Dewi Pws i ddiddanu ac ysbrydoli sawl cenhedlaeth, gyda'i hiwmor, ei ganeuon dirdynnol yn ogystal â'r rhai hwyliog, ei angerdd dros y Gymraeg a'i bersonoliaeth cwbwl unigryw.



Dewi Pws oedd yr arwr yng Nghapel Bethlehem Pwll Trap dros ddegawd yn ôl. Ac ar ôl darllen y llu o deyrngedau ar-lein yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'n amlwg bod llaw fechan y mab yn un ymhlith cannoedd ar gannoedd o ddwylo sy'n ddiolchgar am gyfraniad rhyfeddol yr amryddawn Dewi Pws Morris – y cerddor, actor, digrifwr, awdur, bardd, cyflwynydd ac ymgyrchydd heb anghofio wrth gwrs - yr arwr.

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan y Parch. Denzil John*

**Cyfryngau cyfathrebu**

Yn ystod fy ngwyliau eleni gyda'r teulu i Ynys Menorca, aethom i ymweld â El Tora, mynydd uchaf yr ynys, ac arno roedd lleiandy sylweddol. Roedd darn gwreiddiol yr adeilad yn dyddio nôl i'r trydydd ganrif ar ddeg. ac wrth ei ochr safai mast anferthol i drosgwyddo negeseuon ffonau symudol a gwasanaeth teledu, mae'n siwr. Roedd y naill fel y llall yn cyfathrebu gwybodaeth a gwasanaethau ledled yr ynys, a hawlir bod yr ynys gyfan yn gweld y mynydd ac felly yn lleoliad ardderchog i ddibenion y cyfathrebwyr oll.

Prin bod mynyddoedd yn lleoliadau hwylus i adeiladu tŷ cwrdd yn ein cyfnod ni. Ers canol y pedwerydd ganrif ar bymtheg, gyda phoblogaeth cefngwlad ar gynnydd a'r diwygiadau ar garlam, gwelwyd cyfanswm aelodaeth eglwysi anghydffurfiol yng Nghymru ar ei fan uchaf. Roedd codi tai cwrdd yn digwydd mewn gwlad a thref. Dechreuodd y diwydiant glo ddenu gweithwyr o bob rhan o Gymru, yn arbennig o'r ardaloedd gwledig a ddioddefodd lawer o dlodi yn y cyfnod hwnnw. Wrth adael Dyfed a Gwynedd, byddent yn dod a'u harferion crefyddol gyda hwy, ac yn adeiladu capeli ar gyfer yr eglwysi o enwadau amrywiol, a rheiny yn eglwysi Cymraeg eu hiaith. Yn ystod fy nghyfnod i yn y weinidogaeth, caewyd yn agos i 85% o'r capeli hynny, ond buont yn allweddol i ddiogelu'r iaith Gymraeg rhwng 1870-1960 yn y cymoedd hyn, y ddwy Rhondda, Cynon, Taf, a Rhymni. Sefydlwyd yr ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth i'r eglwysi edwino, ac er mai Saesneg yw cyfrwng ieithyddol y gymdeithas gynhenid, maent yn aeddfed i genhadaeth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a dangosodd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda, Cynon, Taf, bod yr awch i hyrwyddo'r Gymraeg, ei dysgu a'i harfer hi, ar gynnydd yn y broÿdd difreintiedig hyn.

Cam arall yw deffro'r trigolion i berthnasedd Efengyl Iesu i'w bywydau hwy. Y cwestiwn y carwn ei ofyn i drigolion bro y Cardi Bach yw pa fath o gyfathrebu ieithyddol a chymdeithasol sy'n amlwg 'o ben y mynydd'. Os y trosglwyddo digidol Americanaidd / Seisnig sy'n nodweddu'r oll, bydd yr ifanc yn tiwnio i fewn i operau sebon digidol di-sylwedd gydag idiomau Americanaidd. Er mor hwylus yw'r ffonau symudol â'r sianeli amheus sy'n denu'r ifanc- maent hefyd yn gyfrwng creu llanast moesol a chymdeithasol. Nodweddwyd mis Awst yn Lloegr gydag ymosodiadau 'asgell dde' gwleidyddol yn gweld merched 8-10 oed yn cael eu lladd ar y stryd wrth adael clwb dawnsio. Datblygodd sefyllfaoedd terfysgol mewn sawl man yn sydyn iawn yn sgîl hyn. Mae angen ystyried bod y terfysgwyr yn medru cysylltu gyda'i gilydd yn hawdd drwy'r cyfryngau digidol. Perygl yn wir.

Mae'n bosibl fod y lleiandy ar fynydd El Tora, yn dal i gyfathrebu neges sylfaenol a pherthnasol i drigolion ac ymwelwyr yr ynys hyfryd hon. Mae'n cyfathrebu gras a thrugaredd, heddwch a maddeuant, gobaith a chariad i fyd creulondeb a thrais, y byd sy'n ddihid i unigrwydd a thlodi, i fyd anobaith ac anghyfiawnder gan gyfathrebu cariad Duw yn Iesu Grist i fyd hunanol a threisgar. (Ioan 3:16).

**CYMDEITHAS YR HOELION WYTH**

Cynhelir Cyngerdd
yng Nghaffi'r Emlyn Tanygroes
ar nos Wener, Tachwedd 15fed
am 7.30 o'r gloch

yng nghwmni Cor Pam Lai

Tal mynediad - £8

# Clonc a Phosau John Arfon

Mae'r deufis diwethaf hyn wedi bod yn greulon iawn i lawer o deuluoedd yr ardal, sydd wedi colli anwyliaid. Hoffwn ar ran fy hunan a'r Cardi Bach estyn ein cydymdeimlad diffuant â chwi oll.

Dymuniadau gorau a llwyr wellhad i unrhyw rai sydd wedi bod yn yr ysbyty neu heb fod yn hwylus yn ddiweddar.

---

**Dyma atebion mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| O | O | X | O | X | X |
| X | O | X | X | O | O |
| X | X | O | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 2 | 3 | 5 | 7 | 1 | 8 | 6 | 4 |
| 4 | 7 | 5 | 8 | 3 | 6 | 2 | 9 | 1 |
| 1 | 8 | 6 | 4 | 2 | 9 | 5 | 7 | 3 |
| 5 | 1 | 8 | 6 | 9 | 3 | 4 | 2 | 7 |
| 2 | 9 | 7 | 1 | 5 | 4 | 3 | 8 | 5 |
| 6 | 3 | 4 | 2 | 8 | 7 | 9 | 1 | 5 |
| 3 | 5 | 9 | 7 | 6 | 2 | 1 | 4 | 8 |
| 8 | 6 | 4 | 9 | 4 | 5 | 7 | 3 | 2 |
| 7 | 4 | 2 | 3 | 1 | 8 | 6 | 5 | 9 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | | O | |
| X | | | | | |
| | O | | X | | |
| O | | | | | O |
| | | | X | | |
| O | | O | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 4 | | | | | 8 | 6 | 1 |
| | | 2 | 6 | | | | 9 | |
| 3 | 6 | | 8 | | 9 | | | |
| 1 | 9 | 4 | | | | | | |
| | | | 1 | | 3 | | | |
| | | | | | | 5 | | 2 |
| | 7 | 3 | | | | 1 | | |
| 8 | | | 3 | | | | 7 | |
| | | | 7 | 1 | 4 | 6 | 8 | |

**Dyma atebion y posau**

**a)** Y Croesair

Ar Draws
1. Un Funud Fach, 6. Achos Da, 7. Ringo, 9. Archebu, 10. Aur, 11. Enlli, 14. Tuna, 15. Glo, 16. Anaddas, 17. Blingo, 18. Gwancu, 20. Annibendod.

I Lawr
1. Uwch, 2. Festri, 3. Nia Ben, 4. Darlun, 5. Anneallus, 6. Archesgob, 8. Oernadau, 9. Allforion, 12. Safoni, 13. Mangre, 14. Tamaid, 19. CYD.

**b)** Y Cencen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 + 2 | 5 | 3 | 5 – 6 | 1 | 4 4 |
| 2 – 4 | 2 | 25 × 5 | 1 | 6 6 | 2 ÷ 3 |
| 1 1 | 2 ÷ 4 | 2 | 5 | 6 × 3 | 6 |
| 54 × 3 | 5 = 1 | 6 | 10 + 4 | 2 | 13 + 5 |
| 6 | 3 | 4 | 2 | 5 | 1 |
| 30 × 5 | 6 | 1 1 | 7 + 3 | 4 | 2 |

**c)** Croesi Allan
Ar Draws. Botwm, Anaml, Noson.
I Lawr. Brain, Trais, Melyn.

**d)** Y Chwilrif Mawr

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 12 | 3 | 7 | 11 | 6 | 4 | 9 | 10 | 2 | 1 | 5 |
| 10 | 2 | 1 | 4 | 8 | 7 | 5 | 3 | 6 | 9 | 11 | 12 |
| 11 | 6 | 9 | 5 | 1 | 12 | 2 | 10 | 3 | 7 | 8 | 4 |
| 2 | 1 | 10 | 3 | 5 | 9 | 11 | 12 | 8 | 4 | 6 | 7 |
| 6 | 8 | 5 | 9 | 4 | 2 | 3 | 7 | 1 | 11 | 12 | 10 |
| 7 | 4 | 11 | 12 | 10 | 1 | 6 | 8 | 9 | 5 | 2 | 3 |
| 4 | 11 | 2 | 10 | 9 | 5 | 12 | 6 | 7 | 8 | 3 | 1 |
| 3 | 9 | 6 | 1 | 7 | 10 | 8 | 2 | 4 | 12 | 5 | 11 |
| 5 | 1 | 12 | 8 | 3 | 4 | 1 | 11 | 2 | 10 | 9 | 6 |
| 9 | 5 | 4 | 6 | 2 | 11 | 10 | 1 | 12 | 3 | 7 | 8 |
| 1 | 10 | 8 | 2 | 12 | 3 | 7 | 5 | 11 | 6 | 4 | 9 |
| 12 | 3 | 7 | 11 | 6 | 8 | 9 | 4 | 5 | 1 | 1 | 2 |

---

Mae dwy gystadleuaeth y mis hwn. **Dyma'r gyntaf**.

Tybed a fedrwch ddarganfod enwau rhai o ddinasoedd y byd a geir wrth ichwi ddatrys y rhifau canlynol gan ddefnyddio'r allwedd-bad (keypad) y teliffon a ddangosir. **e.e. 283667 14737 fyddai Buenos Aires.**




1. 9274464866 3. 2 .
2. 86596
3. 22623772
4. 23347 22222
5. 834726
6. 2656626
7. 2272227
8. 786254656
9. 6426742
10. 8747654
11. 927729
12. 475262223

**A dyma'r ail:** Trefnwch a gosodwch y llythrennau yn y golofn gyntaf, a'u rhoi i mewn yn y blychau gwag odditano. Os gwnewch hyn yn gywir bob tro, yna dylech gael dyfyniad gan Saunders Lewis.

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | E | A | E | F | E | A | B | A | A | A | A | D | A | A | A | E |
| N | M | B | R | I | Dd | I | L | D | Ch | E | N | G | Dd | I | E | E |
| R | N | Dd | Y | O | P | I | N | G | Ll | L | Y | Ph | E | R | R | R |
| W | | G | | T | R | O | | U | N | N | | Y | M | | T | R |
| | | S | | | | U | | | | | | | | | | |
| ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | | | | | |
| | ■ | | | | | | | | | ■ | | ■ | | | | |
| | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | | |
| | | | ■ | | | | | | ■ | | ■ | | | | | |
| | ■ | | | | ■ | | ■ | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ |

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Dim teilyngdod yn y Daniel Owen ym Mhontypridd ac o'r siom! Ond dywedodd Jerry Hunter, un o'r beirniaid, wrth draddodi'r feirniadaeth wrthym i beidio digalonni gan fod y gystadleuaeth wedi denu darpar nofelwyr yn hytrach na rhai profiadol. Aeth rhagddo i'n calonogi trwy ddweud ein bod yn byw yn oes aur y nofel Gymraeg. 'Cyhoeddir cynifer o nofelau Cymraeg da bob blwyddyn, nes ei fod yn anodd i ddarllenydd brwd hyd yn oed ddarllen pob un ohonyn nhw,' meddai. 'Ceir amrywiaeth rhyfeddol o ran themâu ac arddulliau hefyd a'r ffuglen Gymraeg gyfoes yn deyrnas hynod gyfoethog ar lawer ystyr.' Medraf ond cytuno'n llwyr ag e. Yn rhifyn Gorffennaf cyfeiriais at dair nofel dda iawn gan awduron newydd a chaf y dasg o geisio darllen pob un a gyhoeddir yn gwbl amhosibl.


Cefais nofel berffaith ar gyfer gwyliau yn yr haul a hynny gan nofelydd newydd eto sef Y Ferch ar y Cei gan Catrin Gerallt ac a fyddai, yn fy marn pitw i, yn gwbl deilwng o'r wobr goffa. Dyma nofel swmpus gyda llinyn stori gref, cymeriadau sy'n ennyn diddordeb a phrofiad yr awdur o newyddiadura yn llwyddo i lunio stori gredadwy am gynllunio a chynllwynio wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae cryn dipyn o sbeis yn hon!

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, nofel fer yw Y Bocs Erstalwm a hynny gan nofelydd eithriadol o brofiadol, sef Mair Wynn Hughes a hithau bellach yn ei nawdegau! Fel athrawes slawer dydd, pan oedd prinder llyfrau i ddenu plant yn eu harddegau, dyna falch oeddwn i weld cyhoeddi llyfrau ganddi a fyddai'n apelio atynt. Enillodd sawl gwobr am ei chyfraniad i lenyddiaeth plant. Mae'n debyg iddi fynychu gwersi cyfrifiaduron yn dilyn marwolaeth ei gŵr ac yna wersi ysgrifennu creadigol – heb ddweud wrth neb yno iddi awduro dros gant o lyfrau! Ysgrifennodd hon yn y person cyntaf trwy brofiad Lydia sy'n byw gyda dementia trwy'r cyfnod clo. Daw'r gorffennol yn fyw iddi trwy edrych ar luniau yn y bocs. Mae'n llwyddo'n eithriadol i gyfleu teimladau'r hen wraig unig.

Cafwyd teilyngdod am wobr y Fedal Ryddiaith a hynny hefyd am gyfrol fer yn y person cyntaf ond y tro hwn trwy brofiadau Heli, merch dair ar ddeg oed yn byw gydag elfen o OCD – sef Y Morfarch Arian gan Eurgain Haf. Mae Heli i'w chyffelybu â'r Morfarch sy'n greadur cyfrin, bregus a swil yn chwedloniaeth y Maori ac mae cyswllt rhwng ei Nain â pherson o Seland Newydd. Mae ei marwolaeth hi yn ergyd i'r teulu a gwelwn gymeriadau'r fam, y tad, a'r chwaer yn ymateb i hynny a'r berthynas dyner sy'n datblygu rhwng Heli a Tangaroa. Mae'r ysgrifennu'n synhwyrus a dychmygus a phatrymau meddwl OCD yn britho'r nofel.

Doeddwn i ddim wedi bwriadu prynu Cyfansoddiadau 2024 eleni – mae blynyddoedd ohonynt yn hel llwch ar silff lyfrau yma - ond roedd rhaid cael darllen cerddi'r bryddest a'r awdl gan feirdd ifanc rhyfeddol. Bu hen dad-cu Carwyn Eckley yn weinidog ym Methlehem, Pwll-Trap a fu farw yn ifanc yn 1946 ond claddwyd llwch ei wraig yn 2015 yn 102 oed yn y fynwent a chofiaf hynny gan mai cefnder cyntaf i mi o Sir Fflint oedd yr ymgymerwr.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi ddarllen sawl nofel Saesneg dros yr haf hefyd ond fentra i ddim sôn am y rheini yma ond byddwn yn argymell atgofion Clive Myrie i ddeall cymhlethdodau a chefndir hiliaeth a hynny yng nghyd-destun ei yrfa fel newyddiadurwr. Mae'r capasiti ynom i gyd i deimlo tosturi ac empathi ac angen am ddewrder, doethineb a gwyleidd-dra i ddarganfod y daioni ym mhob un, meddai - a hynny mor wir yng nghyd-destun terfysgoedd Awst. Mynnwch ei ddarllen.





# Parchedig T Howell Mudd (1941 – 2024)



(Bu Mr Mudd yn weinidog yn ardal y 'Cardi Bach' am bron i 20 mlynedd. Dyma grynodeb o'r deyrnged a draddodwyd iddo yn y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Hermon, Cynwyl Elfed ar Awst 9fed eleni )

Ganwyd Howell Mudd yn 1941 yn Neuaddlwyd ger Aberaeron. Roedd ei fam o ardal Cynwyl Elfed a symudodd y teulu nôl i Cynwyl ac yno y magwyd Howell.

Yn 1970 priododd gyda Mary Gwyther o Gorseinon.
Hefyd yn 1970 fe ordeiniwyd Howell i fod yn weinidog yn Nyffryn Aeron cyn symud i Ddyffryn Aman i fod yn weinidog.
Yn 1989 daeth cyfle i fod yn weinidog mewn ardal wledig unwaith eto a derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar gapeli Brynmyrnach, Cefnypant, Glandwr a Llwynyrhwrdd gyda Hebron a Nebo, Efailwen yn ymuno yn ddiweddarach. Treuliwyd ugain mlynedd hapus yn Nyffryn Taf.
Yn y cyfnod yma yn Nyffryn Taf daeth yn aelod o dîm Beca ar Dalwrn y Beirdd Radio Cymru. Dyma englyn a ysgrifennwyd er cof am Howell gan un o aelodau o dîm Beca gyda Howell, sef Wyn Owens, Mynachlogddu.

Bu acw yn nhîm Beca'n - ein hawlio
A'i ddoniolwch sidan.
'Da Mr Mudd we'r trydan.
Ŵr hoff a thipyn o ran.

"Da Mr Mudd we'r trydan" medd Wyn Owens. Roedd yna ryw drydan yn perthyn i Howell bob amser.
"Doniolwch sidan" - Doedd neb yn well am ddoniolwch a hiwmor nag ef. Roedd rhan helaeth o'r storiâu yn rhai llawn hiwmor.
"Ŵr hoff" medd yr englyn ac mae'n anodd meddwl am unrhyw weinidog yng Nghymru oedd a lle mwy annwyl yng nghalonnau eu aelodau nag ef. Roedd hefyd yn Gymro i'r carn ac roedd ei Gymreictod a'r iaith Gymraeg yn holl bwysig iddo drwy ei oes.

'Rhai ysgubau allan o Ysgubor y cof' oedd teitl hunangofiant Howell.
A dywed fel hyn yn y llyfr "Mae amryw wedi gofyn i mi, pam dewis mynd i fewn i'r weinidogaeth. Nid fi ddewisodd, ond cael fy newis wnes i gan un a oedd yn llawer mwy na fi ac a fu gyda mi drwy holl dreialon bywyd"
Diolch i Dduw am ei fywyd a'i waith. Bydd gyda ni gyd atgofion da amdano am weddill ein dyddiau. *Guto Llywelyn*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler



Llongyfarchiadau enfawr i Lilwen ar ddod yn 2il yn y gystadleuaeth trefnu blodau i aelodau Merched y Wawr yn y Sioe Fawr.

Roedd hefyd yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Radi Thomas lle daeth Rhanbarth Caerfyrddin yn 3ydd gyda 91 o bwyntiau. Aberconwy oedd yn fuddugol gyd 94, ac Arfon yn 2il gyda 92. Da iawn Caerfyrddin!




Penwythnos Preswyl
Bu 5 o'r aelodau yn y Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont Steffan o Fedi 6ed – 8fed a chael penwythnos arbennig. Fer arfer, roedd arlwy ddiddorol wedi ei drefnu a chafwyd sesiynau difyr am gelf sef artistiaid benywaidd Ceredigion, coginio gyda Gareth Richards, ffasiwn gyda siopau'r ardal a rhai o ferched ifanc Ceredigion yn rhoi hanes eu gyrfaoedd. Cafwyd cyfle i wrando ar Caryl Lewis yn darllen un o'i straeon byrion a hwnnw'n wefreiddiol a dau gyngerdd o fwynhad pur gyda Merched Soar a Bois y Gilfach.

Yr uchafbwynt i nifer oedd tripiau brynhawn Sadwrn, rhai yn dysgu ar daith gerdded o gwmpas Llambed, rhai yn ymweld â Phlasdy Llanerchaeron, roedd cael eich tywys o gwmpas Eglwys Llanwenog gan Eileen Davies tu hwnt o ddiddorol a chafodd nifer y fraint o gael taith o gwmpas Llangeitho. Tra yno fe ddadorchuddiwyd cofeb i Annie Cwrtmawr, sef Annie Hughes Griffiths, un o'r rhai a fu'n gyfrifol am y Ddeiseb Heddwch gan fenywod Cymru ganrif yn ôl. Cafwyd cyflwyniad gan Sian Howys cyn i Elin Jones, Llywydd y Senedd, ddadorchuddio'r gofeb yn deimladwy iawn. Yn bresennol oedd Ben Lake, A.S. a chafwyd gair gan wyres Annie Cwrtmawr, sef yr ymgyrchydd heddwch Meg Elis. Braint i nifer ohonom oedd cael bod yno. Penwythnos arbennig gyda gwledd o weithgareddau, bwyd blasus a chwmni da.



Yn y llun gwelir rhai o aelodau canghennau Gorllewin Sir Gaerfyrddin fu ar y Penwythnos Preswyl.

Mae'n fwriad i ail-sefydlu Clwb Darllen ac i gyfarfod bob deufis ym Methlehem Newydd. Croeso i unrhyw un ymuno, yn ddynion neu merched, does dim rhaid bod yn aelod o Ferched y Wawr. Bydd y cyfarfod cyntaf ar Nos Lun, Hydref 21ain yn Bethlehem Newydd am 7 o'r gloch. Noson anffurfiol gyda phaned, i benderfynu ar y llyfr cyntaf i'w ddarllen felly dewch a'ch syniadau. Croeso cynnes i bawb.
Cyswllt – Beti-Wyn 07790 405351

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

## Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau gwresog i'n Llywydd Anrhydeddus Margarette a'i gŵr Tony Hughes, Maesyffynnon, Hendygwyn a fu'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar ddiwedd mis Awst.

## Cyflwyno siec i Ymchwil Cancr Cymru



Eurfyl Lewis yn cyflwyno siec o £320 i Helen Davies, ar ran Ymchwil Cancr Cymru. Codwyd yr arian yn ystod oedfa Llywydd Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion agynhaliwyd yng Nghapel Calfaria Login nôl ym mis Mai. Diolch o galon i bawb am eu haelioni.

## Tasglu Cristnogol Sir Benfro

Ers blwyddyn bellach mae yna ddatblygiadau cyffrous wedi bod yn digwydd ymhlith Cristnogion Sir Benfro. A hynny mewn ymateb i'r dirywiad sydd yn digwydd o'n cwmpas ym mhob man. Cynhaliwyd dau gyfarfod anenwadol yn Maenclochog gyda thyrfa fawr yn bresennol.

O ganlyniad sefydlwyd Tasglu Cristnogol Sir Benfro gyda'r bwriad o edrych ar sut y gellir sicrhau'r dyfodol. Y nod yn y pen draw yw sefydlu eglwys unedig i Sir Benfro. A byddai'r eglwys yma yn ychwanegol at, ac nid yn lle unrhyw eglwys neu eglwysi sydd yn bodoli yn barod.

Mae'r Tasglu wedi trefnu dwy oedfa gyffrous ar gyfer yr wythnosau nesaf yma. Ar Hydref 27ain bydd oedfa yng nghwmni Delwyn Siôn yn Neuadd Maenclochog am 6.00 (gweler y poster). A bydd oedfa yng nghwmni Lleuwen Steffan yn y Tabernacl, Maenclochog ar Dachwedd 17eg.

Croeso cynnes i bawb. Byddai'n dda gweld cynulleidfa sylweddol yno i addoli ac i gefnogi'r fenter newydd yma.

*(Aelodau Tasglu Cristnogol Sir Benfro )*




**Cyfraniadau**

| | |
|---|---|
| Winnie James Phillips, Crymych | £25 |
| Betty Howells, Cefnmaenllwyd, Llanfallteg | £10 |
| Sian Jackson, Llanfallteg | £10 |

*Diolch yn fawr*

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'n ymddangos bod yr Haf y tu ôl i ni erbyn hyn, ond croesi bysedd y cawn ni ychydig o heulwen cyn ddaw'r Hydref.

Diolch i'r isod am ymaelodi'n ddiweddar:-

Mair Collinge, 8 Banc Ostrey, San Clêr
Nan a John Thomas, 11 Bro Dewi, Henllan, Llandysul
Betty Howells, Cefnmaenllwyd, Llanfallteg
Anne James, Arfryn, Lôn Ffynnongain, Pwll-Trap
ED Thomas - does dim cyfeiriad gennyf i chi - a wnewch chi gysylltu â fi, os gwelwch yn dda? Diolch.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Gorffennaf:-

£30 - 774 - Ernest Jones, Yr Hafan, 59 Heol Bronwydd, Caerfyrddin
£20 - 426 - Kay James, 3 Lôn Fair, San Clêr

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*



## Coginio

Winnie James Phillips

### BYRGER CIG FFOWLYN A CHAWS

**Cynhwysion:**

1. 1 pwys o gig wedi ei dorri'n fân
2. 2 owns o gaws wedi ei gratio
3. 1 winwnsin
4. 1 clof o garlleg wedi ei falu
5. ½ pupur coch wedi'i dorri'n fân
6. 1 llwy fwrdd o berlysau cymysg
7. 1 wy wedi ei guro
8. Halen a phupur
9. 1 llwy fwrdd olew

**Dull:**

- Rhowch yr olew mewn ffreipan.
- Ychwanegwch y winwnsin, garlleg a'r pupur coch.
- Ffriwch am bum munud.
- Codwch allan i fowlen.
- Ychwanegwch y cig, briwsion bara, perlysiau, caws, pupur a halen.
- Cymysgwch yn dda.
- Ychwanegwch yr wy ychydig ar y tro, er mwyn iddo gael cydio yn ei gilydd.
- Siapwch y burger i'r maint arferol.
- Rhowch yn yr oergell am 20 munud cyn eu pobi.

## CWMBACH

*Priodas Dda*



Llongyfarchiadau i Sarah Howells, Blaengelli ac Owain Davies ar ei priodas ar 13eg o Orffennaf. Roedd y briodas yn Eglwys Llanwinio a'r brecwast yng Ngelli Fawr, Cwmgwaun. Dymuniadau gorau iddynt.




Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227



R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# BLAENWAUN

Pob dymuniad da i Winstone a Marion Thomas, 5 Heol Shôn, sydd yn dathlu Priodas Ddeiamwnt ar Fedi 23ain; carreg filltir arbennig. Hir oes a iechyd da i'r dyfodol.

**Moriah**

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, 1af Medi. Thema'r gwasanaeth oedd heddwch a'r rhan y gallwn ni chwarae er mwyn creu byd mwy heddychlon. Testun dyrys yn yr oes sydd ohoni.

Bydd nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn nhaith gerdded flynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda ar Sadwrn, Medi 14eg. Hefyd bydd Moriah yn cynorthwyo eglwys Ramorth Cwmfelin gyda'r lluniaeth ar ôl y daith, ar festri Ramoth.

Cynhelir cwrdd cwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ar ddydd Iau, 12fed Medi ym Mhenybont am 4 a 7 o'r gloch. Y siaradwr gwadd yn yr hwyr fydd Jane Harries sydd yn ymgyrchydd heddwch a hawliau dynol.

Cynhelir oedfa gymun undebol ar Sul 22ain, Medi ym Mlaenycoed am 2 o'r gloch gyda ein gweinidog Parchedig Gareth Ioan yn gwasanaethu.

Rydym fel eglwys am estyn ein cydymdeimlad dwysaf ar farwolaeth sydyn Elsbeth Page, ysgrifennydd Blaenycoed. Colled enfawr i'r teulu, y gymuned ac i'r eglwys.

Cynhelir ein Hoedfa o Fawl blynyddol yn eglwys Nebo ar fore Sul, 6ed Hydref am 10.30. Yr oedfa yn cael ei dathlu yn lle'r Gymanfa Ganu. Y llywydd fydd y Parchedig Gareth Ioan a gwneir casgliad tuag at elusen.

Bydd ein cwrdd diolchgarwch yn cael ei harwain gan Mrs Annalyn Davies am 2 o'r gloch ar Sul, Hydref 27ain Croeso cynnes i bawb.

# MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James ein gwestai, sef Ted Nicholas, gynt o Meidrim. Siaradodd am ei fywyd cynnar a'i waith gyda'r heddlu ac yn wir, cawsom flas arno yn dweud yr hanesion diddorol. Diolchodd Glyn James iddo am brynhawn hwylus.

Mis nesa ar Hydref 1af, bydd plant Ysgol Meidrim yn ein diddanu. Wrth y te - Sheila Jones, Ambrose Lewis, Arwyn Jones, Lawrence Thomas. Rhoi raffl - Steph Davies, Doreen Thomas, Sheila Jones a John Lewis.

## *Priodas Ddiemwnt*



Llongyfarchiadau i Archie a Ray, 13 Lon Ddewi ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar.

Cariad mawr wrh Gaynor, Mark, Anthea, Dorian, Philip, a hefyd eu hwyrion a'u gor-wyrion. xxx

# CWMFELIN MYNACH

Ramoth. Cafwyd gwasanaeth Mr Hedd Ladd Lewis yn oedfa gymun mis Medi. Diolch iddo.

Hydref
6: Cymundeb Mr Lyndon Lloyd - 10.30
13: Rihyrsal Fawr y Gymanfa Ganu yn Blaenconin - 10.30
20: Y Gymanfa Ganu yn Blaenconin - 10.30

Gwellhad buan i Eifion Edwards, Pwlltrap (Maesylan gynt) sy'n anhwylus ers peth amser.
….hefyd dymuniadau gorau i Merle (ei chwaer) sy'n derbyn triniaeth.
….hefyd i Caroline James, Blaendyffryn sydd wedi bod yn anhwylus.

**Penblwydd**

Dymuniadau gorau i Nan Thomas, (Frondeg gynt) a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fedi 15fed.

**Paentio**

Mae capel Ramoth wedi cael ei baentio yn ystod mis Awst. Diolch i'r aelodau a fu'n glanhau'r adeilad ar ôl y gwaith. Diolch hefyd i'r aelodau fu'n paentio wal a iet y capel.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

**Sioe Amaethyddol Llanelwedd**
Bu Dafydd Evans yn sylwebu gyda Ifan Jones Evans ar S4C yn yr adran wartheg gan ganolbwyntio ar y brîd Limousin.

Hefyd, cafodd Cennydd Jones gyfweliad gyda Shân Cothi ar Radio Cymru. Mae Cennydd yn cystadlu'n gyson yn yr adran ddofednod a chafodd lwyddiant gyda 4 cyntaf, 2 ail a 2 drydydd. Llongyfarchiadau iddo.

**Angladd**
Bu farw Mrs Maureen Evans, Cilhaul ar ôl salwch byr. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Mawrth, 13eg o Awst gyda'r gwasanaeth yn y festri. Er nad yn aelod, dymuniad y teulu oedd ei rhoi i orffwys ym mynwent Ramoth. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Winston a'r teulu.

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau i Harri Williams, (mab Beryl a Gareth) a Lucy Roberts ar eu priodas yn eglwys Eastnor ger Ledbury, Swydd Henffordd ar ddydd Sadwrn, 27ain o Orffennaf. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Gwellhad buan** a dymuniadau gorau i Malcolm Williams, Woodlands sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

# RHYDWILYM

Cynhaliwyd oedfa gymun ar fore Sul, Medi 1af. Diolch i Lyndon Lloyd am wasanaeth bendithiol iawn.

Medi 21ain. 2.00 - Arwel Evans.

Hydref:
13eg. 10.30 - Rihyrsal y Gymanfa Ganu yn Blaenconin
20 fed. 10.30. Y Gymanfa Ganu yn Blaenconin
27 ain. 10.30. Cymun. Parchedig Peter M Thomas
Mae'r Parchedig P.M.Thomas yn dathlu 50 mlynedd yn y weinidogaeth. Daeth atom i Rydwilym yn syth o'r Coleg yn 1974. Gwnaeth aros gyda ni hyd nes iddo symud i Aberystwyth. Yr oedd yn gyfnod hapus iawn yn ein hanes. Pob bendith iddo ynte ac i'w briod Meryl.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Emrys Llewelyn sy'n treulio amser yng Nghartre Waun Gron.
Hefyd pob bendith a gwellhad buan i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Gwnaeth Howell James, Tŷ Coch ddathlu ei benblwydd yn 80 oed ym mis Awst. Llongyfarchiadau iddo ynte.

# San Cler

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Sally Jones, Hillbury, Rhiw'r Orsaf. Wedi treulio rhan helaeth o'i bywyd yn Nhrelech, symudodd gyda'i merch, Sheila, i Fancyfelin ac yna i San Cler. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel y Graig, Trelech ar Orffennaf 25ain. Cydymdeimlwn yn ddwys â Hugh, Ann a'r teulu a gyda Sheila ar eu colled a'u hiraeth.

Cofiwn hefyd am deulu Ronnie Howells yn eu galar. Bu farw Ronnie yn 98 oed ar Orffennaf 26ain ond ychydig o fisoedd wedi colli ei annwyl wraig, Mair. Gyrrwr tren yn Hendygwyn oedd Ronnie wrth ei waith ac yn byw yn Llwynderw, Llangynin cyn symud i Llwynderw Bach, Glasfryn rai blynyddoedd yn ôl. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Bethel, Llanddewi

Llongyfarchiadau i Tegwyn a Margot Williams, Rhydygors, ar eu priodas yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Beti Thomas sydd yn gwella wedi torri asgwrn.

Mae Olive o Pethau Olyv wedi cael llaw-driniaeth a da yw deall ei bod yn gwella'n dda.

Dymunwn wellhad buan i Peter Howells, Heol yr Orsaf

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

sydd wedi derbyn llaw-driniaeth ar ei ddwy benglin.

Dymunwn ymddeoliad hapus i Sioned Davies, Fferm yr Hendre sydd newydd ymddeol o'i swydd fel pennaeth cynorthwyol yn Ysgol Dewi Sant, Llanelli.

**Eisteddfod Genedlaethol**



Llongyfarchiadau i Hannah Richards Sanclêr wedi iddi gael ei hurddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Hannah Hafren yw ei henw gorseddol.



Llongyfarchiadau hefyd i'w chwaer Celyn Richards ar gipio'r wobr gyntaf yn yr Unawd Alaw Werin o dan 21 oed.

## Clwb Ffermwyr Ifanc




Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Clwb Ffermwyr Ifanc San Cler yng Nghapel Bethlehem Newydd, Pwll Trap ar Nos Lun, Hydref 14eg am 7.30 y.h. Mae croeso cynnes i bawb.

***(Gofynnaf yn garedig, os oes gennych newyddion i'r Cardi Bach a fyddech yn fodlon ei ddanfon ataf erbyn noson y 7fed o'r mis fel bod amser gennyf i baratoi'r golofn cyn ei danfon at Wyn a Meirwen erbyn y 10fed. Beti-Wyn)***

## *Graddio*



Llongyfarchiadau i Caeo Rhys Pryce, Sanclêr, wedi iddo ennill gradd Cymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd y bêl-droedwraig Jess Fishlock ei hanrhydeddu yn ystod y seremoni raddio, a hithau newydd dorri'r record am y nifer fwyaf o goliau dros Gymru. A llwyddwyd i fachu llun !



Llongyfarchiadau enfawr i ti, Guto Huws o Sanclêr am ennill gradd 'Meistr mewn Mathemateg' ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae 'Teulu'r De' a 'Theulu'r Gogledd' yn falch iawn o dy lwyddiant arbennig. Gwych.



# Capel y Trinity, San Cler



Capel y Trinity, San Cler ddechrau mis Gorffennaf eleni fe ddaeth yn agos i ddwy ganrif o addoli, diolch a chymdeithasu yn enw Crist i derfyn mewn gwasanaeth o ddatgorffori dan arweiniad swyddogion Henaduriaeth Myrddin. Nid yw gweld cau addoldy bellach yn newyddion sy'n creu syndod na chyffro - mae pob pentre a thref yng Nghymru yn frith o addoldai sawl enwad naill ai'n wag neu gyda rhyw ddefnydd arall. Ond i'r nifer fechan oedd ar ôl yn aelodau – rhai ohonynt wedi bod yn aelodau oes, mae gweld y drysau dan glo yn creu chwithdod a bwlch a hefyd, yn anhepgor, rhyw deimladau o euogrwydd gan mai tan eu gwyliadwriaeth hwy y bu yn rhaid dod a'r achos i ben.

Fe saif yr addoldy ar ben isaf yr heol a wyddir nawr fel Heol yr Orsaf ond pan adeiladwyd y capel cyntafyn 1830 os yw'r dyddiad ar y mur yn gywir, nid oedd y rheilffordd wedi cyrraedd, ac wrth edrych ar hen fapiau o'r cyfnod go brin fod na fwy nag un neu ddau adeilad o unrhyw fath rhwng y fan a Meidrim rhyw dair milltir i ffwrdd. Roedd Methodistiaeth wedi cyrraedd Meidrim a'r achos yn Meidrim wedi ei sefydlu. Fel seiat neu Ysgol Sul i hwnnw y dechreuodd Y Trinity gan gyfarfod, i ddechrau, mewn ystafell yn un o'r tai sydd yn groes yr hewl i'r addoldy presennol. Y tŷ hwnnw a ddefnyddiwyd wedi adeiladu addoldy, fel Tŷ i ofalwyr y capel. O ystyried nad oedd poblogaeth o gwbl bron yn nghyffiniau'r capel, diddorol fyddai gwybod o ble felly y deuai addolwyr. Fe welwn oddiar y beddfeini cynnar fod rhai o Lanboidy a Llangynin gryn bellter i ffwrdd.

Erbyn 1884 - yr ail ddyddiad ar y mur, fe welwn fod y rheilffordd wedi cyrraedd a'r orsaf wedi ei sefydlu. Roedd honno wedi rhoi bod i nifer fechan o adeiladau o'i chwmpas gan gynnwys dwy dafarn ac roedd Ysgol Glasfryn wedi ei hadeiladu ond yn ôl y map OS am y cyfnod, rhyw ddau neu dri adeilad oedd rhwng y capel a'r ysgol. Ysgol plwyf Llanfihangel Abercowin oedd Ysgol Glasfryn ac nid Sancler ac mae'n rhaid mai ffermwyr y fro gyda'u gweision a morwynion oedd rhelyw yr addolwyr a sefydlodd Y Trinity a chynnal yr achos yno trwy'r blynyddoedd cyntaf. Beth yn union oedd y gwaith a nodir yn 1884 ond rwy'n tybio mai adeiladu'r Capel, fwy neu lai fel y'i gwelir heddiw a wnaed.


Y trydydd dyddiad ar y mur yw 1927 ac rwy'n credu mai ymestyn y tu cefn i'r adeilad a wnaed i greu lle i'r Organ gan fanteisio ar y cyfle i roddi yn eu lle ddwy ffenest liw brydferth - un i gofio Thomas Charles o Bantdwfn yn y plwy a'r naill i gofio cyfraniad helaeth un o deuluoedd y fro. Byddai yn ddiddorol gwybod mwy am hanes yr organ gan fod nifer o wŷr cerdd o amlygrwydd cenedlaethol wedi bod i'w gweld ac yn ei chanmol. Mae hi hefyd yn bur debyg mai i gynorthwyo gyda'r gost o'i sefydlu y bu Trinity am ddegawdau yn cynnal cyngerdd blynyddol gan wahodd artistiaid o fri cenedlaethol i gymeryd rhan.

Ar y mur wrth ochr y pwlpud mae cofeb i'r Parch J E Thomas a wasanethodd fel gweinidog am ddeugain mlynedd cyntaf yr ugeinfed ganrif – blynyddoedd a welodd cymaint o newid yn hanes pob eglwys. Fe welodd ddiwygiad Evan Roberts yn 1904/5, erchyllterau Y Rhyfel mawr a'i sgil effaith ar grefydda a byw wedyn i weld Ail Ryfel Byd. Anodd peidio a holi tybed sut y byddai'n teimlo heddiw i weld y drysau'n cau.

Cofiwn wedi'r cyfan, mai adeilad sy'n cau nid yr Eglwys "canys Gair yr Arglwydd a saif byth" a'n gweddi a'n gobaith yw fod yr had a blannwyd mewn sawl cenhedlaeth wedi egino a dwyn ffrwyth mewn tiroedd eraill.

*Dafydd Williams*




Eglwys Bresbyteraidd Cymru

HENADURIAETH MYRDDIN
GWASANAETH DATGORFFORI
CAPEL TRINITI, SAN CLER

I'w gynnal yng Nghapel Triniti, San Cler,
Prynhawn Iau 22ain o Orffennaf, 2024
Am 2.00y.p.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# Pwll Trap

## *Penblwydd Hapus yn 70 oed*



Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Ryland a Beti-Wyn James a fu'n dathlu eu penblwydd yn 70 oed yn ystod mis Awst - Ryland ar y 15fed a Beti-Wyn ar yr 17eg.

Penblwydd hapus hwyr i Sharon Jones, Courtlands a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 75 oed ar Orffennaf 8fed.

Roedd John Evans, Crud y Wawr yn dathlu ei benblwydd yn 65 oed ar Orffennaf 25ain. Penblwydd hapus iddo yntau.

Penblwydd hapus i Sandra Williams, Cornel Ni, yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Awst 12fed.

Bydd David James, Greenhill yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Hydref 30ain. Penblwydd hapus iddo ef.

A bydd Rhonna Thomas-Phillips yn 65 oed ar Hydref 4ydd. Penblwydd hapus iddi hi.

Llongyfarchiadau i John a Delyth Evans, Crud y wawr ar enedigaeth eu ŵyr. Ganwyd mab, Tomi Jos, i Dafydd a Kelly ar Orffennaf 24ain.

Cafwyd Eisteddfod wych yn Rhondda Cynon Taf gyda nifer o'r ardal yn cystadlu. Cafodd Daniel O'Callaghan lwyddiant mewn sawl cystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Braf hefyd oedd deall fod cysylltiadau gyda bardd y gadair, Carwyn Eckley, â Phwll Trap. Roedd ei hen dadcu, y Parch. Eckley yn weinidog ym Methlehem ym 50au'r ganrif diwethaf a tadcu Carwyn yw Martin Eckley. Mae sawl un yn cofio'r teulu yn byw yn y pentref.

Dymunwn briodas dda i Howard a Cath Pickersgill, Penybryn.

Dymunwn wellhad buan i Doreen Thomas, Maes y blodau, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Bronglais ym mis Awst.

Cydymdeimlwn â Ian a Sonia Thomas, Oak Crest, a'r teulu ar farwolaeth tad Ian, sef Mon Thomas, gynt o Garllegan, Meidrim.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Dwyfor Morgan, Glan y gors, yn dilyn llaw-driniaeth ar ei benglin.

Trist oedd clywed am farwolaeth Dewi Jones, Gorsfach ar Fedi 9fed. Yn enedigol o Langynin roedd Dewi yn adnabyddus fel rhedwr a beiciwr yn ystod ei ieuenctid. Cydymdeimlwn â'r teulu y neu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â John ac Euryth Holdcroft a'r teulu ar farwolaeth mam John, sef Marion Holdcroft o Lanboidy.

**Bethlehem Newydd**
Cydymdeimlwn â Rhodri, Marian a'r teulu ar farwolaeth brawd Rhodri, sef Huw Thomas, yn Lerpwl. Roedd yn adnabyddus fel arbenigwr ym myd ceir ac yn cyfrannu'n gyson i'r cyfryngau.

Llongyfarchiadau i'r pump canlynol ar gael eu dewis i fod yn ddiaconiaid y capel – Mair Davies, Ann Jones, Arwel Jones, Geraint Phillips a Dai Rees. Byddant yn ymuno gyda Huw Davies, Joan Evans, Les Evans, Rhys Phillips, Eirlys Thomas, Rhian White a Verian Williams.

Aelodau Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymunedol yw Arwel Jones, Janet Lewis, Rhys Phillips, Marian Thomas a Rhian White.

Cynhaliwyd oedfa Gymun ar Fedi 1af dan ofal y Gweinidog a'r aelodau. Yn ystod yr oedfa bedyddiwyd Harri John, mab bach William a Hanna Griffiths, Blaengors. Roedd yn braf croesawu'r teulu i'r oedfa, yn enwedig hen dadcu Harri, sef Gerwyn Griffiths, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.



**Tŷ Croeso**
**Apêl y Lloches a dillad Coda Ni** bore Sadwrn, **Medi 28ain a Hydref 5ed** rhwng 10-12.00 Bydd cyfle am baned a sgwrs bryd hynny hefyd. Mae angen y canlynol ar y Lloches: Shampw, Conditioners, Shower gels. Deodrant merched a bechgyn, Past dannedd, Face wipes, Shampw a shower gels plant. Hefyd deunydd glanhau – sebon golchi llestri, powdwr golchi, air freshners a chwistrellwyr cegin ac ystafell molchi.




*(Gofynnaf yn garedig, os oes gennych newyddion i'r Cardi Bach a fyddech yn fodlon ei ddanfon ataf erbyn noson y 7fed o'r mis fel bod amser gennyf i baratoi'r golofn cyn ei danfon at Wyn a Meirwen erbyn y 10fed. Beti-Wyn)*

# LLANDDOWROR

Llongyfarchiadau i Megan Phillips o Landdowror (merch Robert a Diane Phillips, wyres Margaret Phillips, Llanddowror, Mair Evans Crug y bar, a Dai Wilson Arberth) ar gael ei phenodi yn gydlynydd Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru. Pob hwyl iddi yn y swydd newydd.

# BANCYFELIN

**Gibeon**

Cafwyd prynhawn hyfryd eleni eto yng Ngŵyl y Sul Sbesial a gynhaliwyd yn Yr Egin ar Orffennaf 14eg. Croesawyd pawb gan Gadeirydd y Cyfundeb, sef y Parch. Guto Prys ap Gwynfor. I agor y prynhawn cafwyd cyflwyniad graenus am Y Ffermwr Ffôl gan Ysgol Sul Bryn Iwan. Tra'r oedd y plant â sesiwn ar weddi dan ofal Ann Evans bu'r oedolion yn gwrando ar y siaradwr gwadd, sef Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu Dyfed-Powys a difyr oedd gwrando arno. I orffen y prynhawn cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen.

Ar Ddydd Sul, Gorffennaf 14eg ymunom fel gofalaeth â Gofalaeth Tabernacl, Hendygwyn ar ymweliad â Chapel Peniel. Cafwyd croeso cynnes yno ac oedfa hyfryd iawn gan yr aelodau ar "Bererindod" yn cynnwys hanes rhai o'u pererindodau hwy fel gofalaeth. Cymerodd Annalyn ran yn yr oedfa i gynrychioli'n Gofalaeth ni. Diolch iddyn nhw am y croeso, y gwasanaeth diddorol a bendithiol a'r cyfle i gymdeithasu dros baned wedi'r oedfa. Teithio wedyn i Westy'r Llwyn Iorwg Caerfyrddin lle cawsom ginio blasus a mwynhau yng nghwmni'n gilydd. Diolch i Guto a Meryl am drefnu'r diwrnod.

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 27ain priodwyd Anwen Evans (Gwarwenallt) a Matthew Driver yng Ngibeon. Annalyn oedd â gofal y gwasanaeth a chafwyd oedfa hyfryd. Bu Catrin Lisa yn darllen cerdd a roedd y canu yn wych i gyfeiliant Nicki Roderick ar yr organ. Hefyd, cafwyd datganiadau cerddorol gan Annie Pullar ac Alis Huws. Dymunwn yn dda i Anwen a Matthew ar eu priodas. Mae'n nhw wedi ymgartrefu yn yr Hendygwyn.

Llongyfarchiadau mawr i Owain Llyr Williams, Lower Court, sydd wedi ei ddewis yn eilydd i Alfie Boe, fydd yn chwarae rhan Jan Valjean, yn nhaith dathlu y sioe gerdd Les Miserables ar draws y byd.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Alan Morris, Llwyn Meredydd, ar Awst 25ain. Treuliodd ei lencyndod ar fferm Llwynbrain a bu'n ffyddlon i'r Ysgol Sul a'r capel. Dychwelodd ef a'i wraig, Dorothy, yn aelodau wedi ymddeol a bu'n ffyddlon i'r oedfaon tra bod ei iechyd yn caniatau. Cydymdeimlwn â Dorothy, eu feibion Dylan a Neville a'u teuluoedd, hefyd ei chwaer, Delyth, ar frawd Meirion a'r teulu oll ar eu colled.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad yr Ysgol Sul ar Hydref 20fed am 10.30 o'r gloch.

# RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd yr oedfa gymun arferol ar Sul, Medi'r 8fed. Cydymdeimlwn yn ddwys a Elfed ac Eifiona Lewis a'r teulu Llyscoed, Llangynin ar farwolaeth cefnder sef Ronnie Howells, Heol yr Orsaf, San Cler.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.






# LLANGYNIN

**Serennu yn Opera Roc Nia Ben Aur**

Llongyfarchiadau i Gareth Elis, mab Nigel a Sian Davies, Llain Deg ,a gafodd y fraint o chwarae rhan Osian yn yr opera roc Nia Ben Aur yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.



Nia Ben Aur oedd yr opera roc gyntaf erioed yn yr iaith Gymraeg. Roedd y fersiwn newydd sbon i'w gweld ar lwyfan y Pafiliwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym mis Awst. Roedd hynny'n nodi union hanner can mlynedd ers y perfformiad cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1974. Llongyfarchiadau.

Llongyfarchiadau i bob un o blant a phobl ifanc yr ardal ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU, UG a Lefel A a phob dymuniad da iddynt wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau yn yr ysgol neu'r coleg, neu wrth fentro i fyd gwaith.

**Pen blwyddi**

Llongyfarchiadau mawr i Janet Lewis, Llwynbychan, ar ei phen blwydd arbennig yn 60 oed ar Fedi'r 7fed, hefyd i Rhiannon Thomas, Llys Coed, yn 82 oed ar Fedi'r 10fed, i Mary Edwards, Pleasant View, yn 75 oed ar Fedi'r 12fed, ac i Geraint Jones, Carreglwyd, yn 65 oed ar Fedi'r 14eg. Pen blwydd hapus a phob dymuniad da i'r pedwar ohonyn nhw.

**Gorwyres newydd**

Llongyfarchiadau i Menna Parri, Erw Lon, ar ddod yn hen famgu am y tro cyntaf. Croeso i'r byd i Odette Rose Watts.

**Diolch**

Dymuna Neil a Mary Edwards, Pleasant View, a'r teulu i gyd, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar farwolaeth chwaer Neil, sef Mrs. Pat Reckman o Rydaman.

**Gwellhad buan**

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Eifiona Lewis, 3 Llys Coed, yn dilyn llawdriniaeth i'w llaw. Hefyd i Mel Holliday, Afallon, sydd wedi torri ei braich yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Jamie Morris a Christopher Morris, Llys Coed, a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mamgu, sef Rosina Morris, Fronhaul, Llanboidy. Roedd Rosina, a oedd yn 94 oed, hefyd yn fodryb i Hywel Morris, Golygfan. Cofiwn am bob un o 'r teulu yn eu colled.

Bu farw Matthew Little, Lleifior, yn ddisymwth tra ar ei wyliau yn Skegness gyda'i fam a'i chwaer. Cydymdeimlwn yn ddidwyll iawn â'i fam Jane a'r teulu oll.

Pob cydymdeimlad hefyd â Richard, Jayne ac Emily Thomas a'r teulu, Trem y Cwm, ar farwolaeth tad Richard, sef Raymond Thomas, Meidrim, neu Mon Garllegan fel yr adwaenid ef yn lleol.

Trist iawn yw clywed am farwolaeth Jim Martin, gynt o Brychan, Llangynin , yn 87 oed. Roedd Jim wedi treulio misoedd lawer yn ysbyty Glangwili cyn ymgartrefu yng Nghartref Gofal Dôl-y-Felin, Sanclêr, ym mis Gorffennaf eleni. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i fab Richard a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

Ry'n ni'n cydymdeimlo'n fawr iawn gyda Rhodri a Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, ar farwolaeth brawd Rhodri, sef y gohebydd moduro Huw Thomas. Cofiwn am y teulu yn eu profedigaeth.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Miss Natalie Morgan a Mr Lyndon Lloyd am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Medi 29ain - Arwel Evans - Cwrdd Diolchgarwch am 10.30 o'r gloch
Hydref 13eg - Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu, Blaenconin, Llandysilio am 10.30 o'r gloch
Shan Jones - Cymun am 2 o'r gloch










20fed - Gymanfa Ganu yng Nghapel Blaenconin, Llandysilio am 10.30 o'r gloch
27ain - Peter Thomas - Cwrdd am 2 o'r gloch

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Mary Llewellyn sydd yng Nghartref Waungron, Hendy Gwyn ar hyn o bryd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Delyth a Tim Simons ar ddod yn famgu a tadcu. Ganwyd merch fach o'r enw Marged Lois i'w merch Bethan a'i gŵr.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Adrian, Suzanne a Janice Llewellyn a'u teuluoedd ar farwolaeth tad a tadcu annwyl iawn sef Hywel Llewellyn yn ddiweddar.

**Y Fynwent**
Mae'r fynwent yn edrych yn daclus ac yn gymen unwaith eto, diolch o galon i John Davies a Russell Davies am eu gwaith.

**Diolch Helen**
Cafwyd cyfle ar ddiwedd mis Gorffennaf i ddiolch ac i ddangos ein gwerthfawrogiad i Helen Campbell am ei gwaith yn gofalu ar ol y capel am bron i ddeugain mlynedd. Diolchodd Eurfyl yn ddiffuant iddi, ar ran aelodau Calfaria, am ei gofal ar hyd y blynyddoedd a cyflwynodd rodd ariannol iddi ar ran yr eglwys.



Aelodau Calfaria yn cyflwyno rhodd i Helen Campbell fel arwydd o werthfawrogiad am ei gwaith yn gofalu am y capel dros y ddeugain mlynedd diwethaf



Y Parchedig Euros Jones Evans yn cyflwyno copi o'i lyfr "Gweddio'r Salmau" i ddeiaconiaid Calfaria

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Wedi egwyl fer dros fis Awst byddwn yn cwrdd ar Nos Fawrth 1af Hydref am 7.30 i drefnu rhaglen y gaeaf. Gobeithiwn weld cynrychiolaeth dda o'r ardal. Angen syniadau newydd arnom ynghŷd â'r gweithgareddau arferol.

Rydym fel ardal yn cydymdeimlo yn fawr a theulu y diweddar Hywel Llewellyn, Dancwarre, Llandysilio, neu Hywel Maesyllan fel ei adnebyddwyd. Roedd lle arbennig yn ei galon i'r ganolfan ac fe'i gofiwn fel cefnogwr da a storÏwr arbennig. Ni fydd y cinio blynyddol fyth yr un fath.

Rydym hefyd yn meddwl am Mary Llewellyn, Garth sydd bellach wedi ymgartrefi ers ychydig, yng Nghartref Waungron ac wedi setlo yn dda.

Ie, dwy Mary Llewellyn nawr yn yr un cartref. Pob dymuniad da i'r ddwy - Mary Pendre, a Mary Garth.

Hefyd llongyfarchiadau i Mary Garth, sydd wedi dod yn hen famgu unwaith yn rhagor. Edrychwn ymlaen at lun er mwyn ei roi yn y rhifyn nesaf.

Llongyfarchiadau i John Hursey, Llys y Coed ar ddathlu ei benblwydd yn wyth deg oed ar Fedi 21ain. Dymuniadau gorau wrth holl aelodau'r pwyllgor.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i blant yr ardal ar ganlyniadau eu arholiadau a phob lwc yn y dyfodol.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Mae’r haf wedi mynd heibio ac rydym ‘back to normal’ yn y capel bellach.

Fe aeth ein pererindod blynyddol a ni i gapel Peniel, ger Caerfyrddin eleni a hynny ganol Gorffennaf. Ar ôl oedfa hyfryd ar ‘Pererindota’ dan ofal aelodau Peniel, fe gafwyd cyfle i gymdeithasu gydag aelodau Peniel dros baned o de. Yna aethom ymlaen i Westy Llwyn Iorwg lle cafwyd pryd blasus cyn mynd am adref.



Pererindod i Peniel

Cynhaliwyd dau fedydd yn y capel yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Ar ddiwedd mis Gorffennaf bedyddiwyd Mali Fflur Freebury, plentyn Megan a Mathew.

Ac yna ddechrau Medi bedyddiwyd Faye Thomas, merch Laura a Noel a chwaer fach i Nia.



Mali Fflur Freebury gyda’i rhieini Megan a Mathew



Faye Thomas gyda’i rhieni Laura a Noel a’i chwaer fawr Nia

Yna ddiwedd Gorffennaf cafwyd noson Gymraeg fel rhan o ddigwyddiadau Wythnos Hendy-gwyn dan ofal ‘Corlan’ a Clive Edwards. Roedd pawb wedi mwynhau a diolch i ‘Corlan’ a Clive am sefyll yn y bwlch ar y funud olaf.

Mae nifer wedi bod yn dathlu cerrig milltir nodedig dros yr wythnosau diwethaf. Nôl yng nghanol Gorffennaf ganwyd ail blentyn i Jonathan a Hedydd Thomas sef Efan Rhys. Brawd bach i Ani Jên. Pob dymuniad da i’r pedwar ohonynt.



Efan Rhys Thomas

Llongyfarchiadau i Rose Rickards a oedd yn dathlu pen-blwydd yn 70 ddechrau Awst.



LLAWN CARIAD

**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Llongyfarchiadau hefyd i Pat Davies a oedd yn dathlu pen-blwydd yn 80 ddiwedd Awst.



Ac yn olaf llongyfarchiadau i Margarette a Tony Hughes a oedd yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ddiwedd Awst. Pob dymuniad da iddynt i gyd.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi newid ysgol, dechrau yn y coleg a dechrau mewn swyddi newydd y tymor newydd yma. Pob dymuniad da i chi gyd.

Mae Clwb Hwyl y Plant wedi ail-ddechrau erbyn hyn a bydd Cymdeithas y Tabernacl a'r Dosbarth Beiblaidd yn ail-ddechrau cyn hir. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni ar gyfer rhain ac ar gyfer yr oedfaon wrth gwrs.

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Rydym wedi ffarwelio â dau o blant sydd wedi gadael y Cylch Meithrin i ddechrau eu taith yn yr ysgol fawr ym mis Medi. Dymunwn bob lwc i Magi a Siôn yn Ysgol Llys Hywel. Mwynhewch!



Hoffem ddiolch i'r grŵp tu ôl i'r Ŵyl Fwyd Stryd Hendygwyn hynod lwyddiannus ym mis Mai, sef Hendygwyn Gyda'n Gilydd, am eu rhodd garedig iawn i'r Cylch. Rydym yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth yn fawr iawn.



Daeth plant y Cylch, eu teuluoedd a ffrindiau i gyd at ei gilydd i gymryd rhan mewn taith tractor o amgylch tref Hendygwyn ar Orffennaf 13eg. Codwyd swm anhygoel o £710 at ein helusen. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth noddi'r plant, cyfrannu arian a cefnogi'r digwyddiad.

### Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Croesawodd y Cadeirydd, Claude James, pawb a oedd yn bresennol ar ôl seibiant yr haf a chafwyd munud o dawelwch i gofio'r diweddar Ronnie

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
✆ 01994 419735

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

Howells, cymeriad hoffus a fu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd maith.

Dymunwyd yn dda i Tegwyn Williams a'i briod Margo sydd wedi ymgartrefi yn Llanbed a hefyd i Cynwyl Davies ac Eilir sydd wedi symud i Gaerdydd i fyw. Ail-etholwyd y swyddogion i gyd ar gyfer y tymor.

Trist oedd clywed am farwolaeth John Davies, neu John y Graig fel ei adweinir gan bawb. Ef oedd un o sylfaenwyr mudiad yr Hoelion Wyth a chydymdeimlwyd gyda'i deulu yn ei colled.

Ein siaradwyr gwadd oedd Calfin Griffiths a'i ffrind Iwan Evans, dau o aelodau cangen Sion Cwilt. Roedd Calfin wedi bod gyda ni o'r blaen pryd bu'n siarad am adeiladu a rhwyfo cwrwglau ar afonydd Sir Aberteifi. Tro yma, rhanwyd y noson yn ddwy ran gan ddechrau gyda arddangodfa o offer a ddefnyddiwyd amser maith yn ôl, a'r gamp a roddwyd i ni oedd dyfalu sut oeddynt yn cael eu defnyddio.
Yn yr ail ran cawsom farddoniaeth ac ambell gân gan y ddau ac hefyd bu Iwan yn chwarae'r 'acordian', offeryn mae'n arbenigo ynddo. Noson hwylus dros ben a diolchwyd iddo gan Glyn Evans.

# CWM MILES

Disgwylir y Parchedig Euros Jones Evans i gymun mis Medi ar yr 22ain am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yr eglwys dan ofal Nigel Davies ar Hydref 13eg am 2 o'r gloch. Yr un croeso eto.

Llongyfarchiadau i Janet Harries ar ei champ unwaith eto eleni o gael emyn o'i gwaith wedi ei chynnwys yn rhaglen Gymanfa Ganu Newydd gyda'r Bedyddwyr ar Sul, 20fed Hydref am 10.30 yng nghapel Blaenconin.

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i drysorydd Cwm Miles, Geraint James, Coedllys a fu'n dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Fedi 12fed.

# LLANDDEWI

**Bethel**

Oeddech chi yn gwybod fod y Beibl ar gael yn Iaith Sir Benfro? Mae ar gael a gellir darllen y pedwar Efengyl yn iaith Sir Benfro. Gwnaed y gwaith mawr o addasu'r Efengylau i dafodiaith y sir gan un o frodorion Sir Benfro sef y diweddar Lyn Lewis Dafis a hynny tua'r flwyddyn 2000 a diolch iddo am y gwaith rhyfeddol yma.

Nôl yn yr haf fe wnaeth dau o Bethel, Llanddewi sef Pamela Lewis a Tudor Eynon ddarllen 'Y Mab Afradlon' yn iaith Sir Benfro. Gellir gweld fideo ohonynt yn gwneud hyn ar dudalen facebook Bethel, Llanddewi a tudalen facebook Cyfundeb Annibynwyr Penfro ar Awst 4ydd eleni.

A oes rhywun o ddarllenwyr y 'Cardi Bach' yn gwybod mwy o'r hanes sut yr aethpwyd ati i addasu y Beibl i iaith Sir Benfro? Byddai'n ddiddorol gwybod.

Dyma flas o'r Beibl yn Iaith Sir Benfro gyda dechrau y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5)

Pan welo Iesu'r crowde âth e lan i'r mini. Ishteddodd e lawr fan'ny, a dâth 'i ddisgiblion ato. Dachreuodd e 'u disgu nhwy, a gweud,
"'Na jecôs yw'r rhei sy'n gwbod bo nhwy miwn ishe;
achos nhwy sy pia Teyrnas Dduw.
'Na jecôs yw'r rhei sy'n mwrno;
achos gewn nhwy gisur.
'Na jecôs yw'r rhei mwynedd;
achos nhwy bydd pia'r ddeiar.
'Na jecôs yw'r rhei sy'n llwgu a'n sichedu am beth sy'n iawn;
achos gewn nhwy ddigon.


Tudor Eynon


Pamela Lewis

# TRELECH

Pob dymuniad da i Anwen Phillips, Cilifan yn ei swydd dysgu cyntaf yn Ysgol Gynradd Abergwaun.

Llongyfarchiadau i Carys, Brynglas gynt a Wynford ar eu priodas ar ddechrau'r mis.

Croeso mawr i'r pentref i Huw ac Ema sydd wedi symud i fyw yn Tresi Aur. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma.

Penblwydd hapus iawn i Gwawr Lewis, Neuadd ar ddathlu penblwydd yn 40 dros yr haf.







Da yw gweld bod Glyn, Rhydygors adref o'r ysbyty ar ôl cyfnod o rai wythnosau.

Mae Ina Barnett wedi mynd i aros dros dro yng Nghartref Gwernllwyn ger Cross Hands. Gobeithio y bydd yn hapus ei byd yno.

Llongyfarchiadau i Ysgol Hafodwenog am wneud mor arbennig o dda yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

Pob dymuniad da i unrhyw un o'r ardal sydd yn dechrau ar yrfa coleg, addysg bellach neu prentisiaeth yn ystod y mis hwn.

### Capel y Graig

**Cydymdeimlad**

Trist yw nodi marwolaeth Mrs Sarah Ann Jones, Hillbury, Sancler, ar 9fed o Orffennaf a oedd yn 93 mlwydd oed. Bu Sally yn aelod ffyddlon a chymwynasgar tan i'w hiechyd ddirywio a'i hatal rhag mynychu'r gwasanaethau. Cynhaliwyd yr angladd gyhoeddus yng Nghapel y Graig ar 24ain o Orffennaf, yng ngofal Jean Lewis. Fe'i cynorthwywyd gan y Parchedigion Beti Wyn James ac Emyr Williams. Yr organyddes oedd Eirlys Phillips. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn gyda Hugh ac Anne, Sheila a fu mor ofalgar o'i mham hyd y diwedd, a'r wyrion Bethan a Gareth a'u teuluoedd.

**Trip yr Ysgol Sul**

Ar ddiwrnod braf o haf, 29ain o Orffennaf, aeth trip yr Ysgol Sul eleni i Heatherton a Dinbych-y-Pysgod, a chyn mynd adre cafwyd swper blasus yn Nhafarn y Beca, Trelech. Diolch yn fawr i Meinir James ac Eleri Rees am drefnu ac i Meinir Davies, Arolygwraig yr Ysgol Sul, am loshin i'r plant.

# Aelwyd Hafodwenog



Daeth bron gant o'r ardal ynghyd i gystadlu yn y Gystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

# PENYBONT

### C Ff I


Bu'n wythnos brysur yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd. Llongyfarchiadau i'r clwb ar ddod yn ail yn yr arddangosfa 'static,' ac i bawb a fu'n cystadlu - i Celyn ar yr unawd, Olwen a Gwion ar y barnu stoc, Carwyn a Fiona yn yr adran goginio a Dafydd a oedd yn rhan o'r tîm enillodd y rygbi 7 bob ochr.




Arddangosfa 'static'

Bellach mae swyddogion newydd wedi eu hethol ar gyfer y flwyddyn 24/25. Llongyfarchiadau i bob un.

Elan Thomas -Cadeirydd
Hannah Richards -Ysgrifennydd,
Is-drysorydd
Steffan Richards - Trysorydd
Lowri Powell - Is-gadeirydd
Anwen Phillips - Is-ysgrifennydd
Celyn Richards - Ysgrifennydd Cofnodion.







# LLANGLYDWEN

**Eglwys Llanglydwen**

Fe wnaeth Eglwys Llanglydwen gynnal Gŵyl Ffarwel Hâf ddydd Sadwrn ola mis Awst a dydd Sul cyntaf o Fedi. Yr oedd yr Eglwys fach yn llawn ar y ddau brynhawn, cawsom hanes yr Eglwys gan y Parchedig Ganon Richard Davies, raffl, tê a digon o bethau melys. I orffen y penwythnos ar y dydd Sul, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gydag artistiaid lleol. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gymryd rhan ac i bawb wnaeth helpu gyda'r blodau i'r Eglwys a paratoi'r tê. Diolch yn arbennig i Beryl Williams a Jane Legge am eu holl waith yn trefnu'r cyfan. Penwythnos llwyddiannus i'r Eglwys.



Parchedig Canon Richard, Parchedig Shirley, Parchedig Carol a Parchedig Canon Angharad



Y Gynulleidfa

## *Penblwydd hapus yn 60 oed*



Penblwydd hapus iawn i Jill Lewis, Lluest fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Medi 29ain. Daw'r cyfarchion, gyda llawer o gariad wrth Eurfyl, Ifan, Sioned, Elen, Dafydd, Twm bach, Tomos ac Elen.

# EFAILWEN

Llongyfarchiadau i Begw Fussell ar ganlyniadau gwych yn Lefel A eleni. Pob dymuniad da i ti'n dilyn cwrs Meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor mis Medi.

**Pel-droed**




Cafodd Llew Murray (chwith) sydd yn chwarae i dîm dan 6 a Noa Evans sydd yn chwarae i dîm dan 7 ddiwrnod cyffrous iawn yn chwarae i Ysgolion Sir Gaerfyrddin yn Stadiwm Macclesfield, Manceinion. Cafwyd canlyniadau cymysg ac enillwyr! Llongyfarchiadau iddynt!

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau i Rhodri Lewis, Bro Beca a Ffion Jones ar eu priodas ddydd Gwener, Awst 9fed. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

# LLANDYSILIO

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Mair John, Pen-y-berth, Llandysilio a oedd yn 80 ar Awst 22ain.

....hefyd i Tina Fussell a oedd yn 60 ar 6ed o Awst.



Penblwydd hapus i Michael Roblin a fu'n dathlu ei benblwydd yn 70 oed.

**Penblwydd Priodas**

Llongyfarchiadau i Colin a Carina Lewis, ar ddathlu Pen-blwydd Priodas Berl ym mis Awst.

**Cydymdeimlo**



Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Ann a Bernard Bowen, Tŷ Capel, Llandysilio, a'r teulu ar farwolaeth tad Ann sef William Ronnie Howells, San Cler. Roedd Ronnie yn gyn yrrwr o'r Cardi Bach.

....hefyd cydymdeimlwn gyda Ceris ac Arwel Llewellyn, Bush Farm a'r teulu, ar farwolaeth ei Anti Betty, chwaer mam Ceris.

....hefyd gyda theulu Hywel Llewellyn, a fu farw ar ddydd Llun, 2il o Fedi yng Nhartref Parcyllyn. Gŵr cariadus i'r diweddar Margaret, tad annwyl Adrian, Janice, Suzanne a'r diweddar Brian ac Andrew.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Casey Louise Lambert, wedi derbyn Baglor yn y Celfyddau, mewn Crefydd a Diwinyddiaeth. Anrhydedd Dosbarth Cyntaf ar 9fed o Orffennaf, trwy Brifysgol Caerdydd. Da iawn wir.

**Priodas**



Llongyfarchiadau mawr i Kara Hughes a Joe Hodgson, ar ei priodas, yn Gelli Fawr, ar ddydd Iau, 29ain o Awst. Pob lwc iddynt am y dyfodol.

**Dyweddio**



Llongyfarchiadau i Rachel Young a Paul Morgan a wnaeth ddyweddio ar 9fed o Fehefin yn Sbaen.

**Bore Coffi Neuadd Llandysilio**

Dewch i gymdeithasu. Cynhelir Bore Coffi yn Neuadd Llandysilio rhwng 10 a 12 o'r gloch ar ddydd Sadwrn, 5ed o Hydref 2024. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

# CLUNDERWEN

### Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr i Owain Davies, mab Emyr a Andrea Davies sydd wedi arwyddo ei gytundeb proffesiynol cyntaf gyda Clwb Pel-droed Hwlffordd.

....hefyd llongyfarchiadau i Andrea ac Emyr Davies, ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol ar Orffennaf 16eg.

### Penblwyddi



Penblwydd hapus i Lucy Llewellyn yn 18 oed ar Awst 25ain.



Pen-blwydd hapus i Elin John a oedd yn 21ain ar Awst 30ain.

.....hefyd Pen-blwydd hapus i Sharon Davies, sydd wedi cael ei 50 oed.

.... hefyd i Pat Gibby a oedd yn 70 ar Awst 27ain.

### Graddio



Llongyfarchiadau mawr i Aiden Howitt, ar dderbyn Baglor mewn Gwyddoniaeth mewn Rheoli Busnes o Brifysgol Lerpwl.



Llongyfarchiadau i Morgan Williams ar dderbyn Baglor mewn Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Mathemateg o Brifysgol Caerfaddon.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Paul a Zoe Phillips ar enedigaeth merch fach ar 27ain o Orffennaf. Chwaer i Edie, wyres i Gail a Terry Morris.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Teg a Dave Unwin a'r teulu, ar ôl colli ei thad, William "Ronnie" Howells. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Bethel, Llanddewi Velfrey.

### Busnes Trin gwallt

Roedd busnes Trin Gwallt "Kathy's" yn Clunderwen wedi dechrau 60 o flynyddoedd yn ôl. Roedd Kathy wedi bod yn edrych mlaen i'r dathladau, ond yn drist, bu farw nôl ym mis Chwefror, diwrnod cyn ei phen-blwydd yn 79 oed. Penderfynodd y teulu fynd ymlaen â'r dathliadau, er cof amdani. Codwyd gwydraid o Pro-secco a phaned o de, yn ei henw ac i'r busnes ar y 7fed









o Fedi gyda tua 80 o gwsmeriaid yno. Mae ei merch, Gail Morris wedi bod yno am bron 40 o flynyddoedd ei hunan.

Dechreuodd y busnes yn Station Road, Clunderwen yn 1964, ac yna symud i Masons Row blwyddyn ar ôl hynny ac yna symud i Central yn 1972. Llongyfarchiadau id-




Siop 'Kathy's' adeg y dathlu

### Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Roedd y gwragedd yn brysur iawn yn Sioe Clunderwen yn paratoi bwyd i'r beirniaid, stiwardiaid a threfnwyr y sioe. Bwydwyd tua 65 a bobl i gyd, gyda chanmoliaeth am ei gwaith.

Mis yma, maent yn mynd i ymweld â chegin Gareth yn Llanbed.
Ar Hydref 12fed, fel rhan o ddathliadau 100 mlynedd, maent yn paratoi cinio i'r gymuned.

Am ddim

**Cinio Cymunedol**

Dathlu 100 mlynedd o Sefydliad y Merched yng Nghlunderwen a Llandysilio
Dydd Sadwrn, 12fed Hydref 2024
am 12yp
yn Neuadd Gymunedol Clunderwen

## Sioe Clunderwen

**Neges wrth y Cadeirydd**

Ar ran gcymdeithas y Sioe, fe groesawodd y Cadeirydd sef Daniel Roblin bawb i Sioe Ffermwyr Ifanc Clunderwen a'r Cylch. Yn dilyn sioe mor llwyddiannus y llynedd, roedd yn anrhydedd ac yn fraint enfawr cael ei wahodd i fod yn Gadeirydd am yr ail flwyddyn. Mae'r flwyddyn wedi hedfan. Mae Sioe Clunderwen yn ddigwyddiad bach, lle mae'r gymunded yn dod at ei gilydd i gwrdd â ffrindiau, gweld beth sydd gan yr arddangoswyr i gynnig, a gweld llu o sgiliau sydd ar gael yn y coginio, crefft ac ati.

Mae rhai diolchiadau i wneud. Yn gyntaf, i Mark ac Eleri Williams am fenthyg y cae unwaith eto. Hefyd i bwyllgor y neuadd am ddefnydd y neuadd ac i Sefydliad y Merched am baratoi'r bwyd. Mae llawer o waith yn mynd i drefnu'r Sioe, felly diolch yn fawr i'n ysgrifynyddes Alison Ebsworth a'r pwyllgor am yr holl drefniadau sydd yn mynd ymlaen trwy gydol y flwyddyn.


Diolch i'r noddwyr, beirniaid, stiwardiaid, gwirfoddolwyr a phawb wnaeth gymryd rhan yn y paratoi o flaen llaw ac ar y dydd. Heb y bobl yma, ni fyddai'r sioe mor llwyddiannus. Diolch i'r Ffermwyr Ifanc am helpu i stiwardio a gwneud bwyd i'r cyhoedd.

Diolch i'n Llywyddion, Mr Julian a Mrs Sonia Robinson. Yn dilyn y sioe roedd yna rasus defaid ac adloniant a bar. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau y diwrnod.

### Ail-gylchu




Dyma lun o Dan a'i ferched gyda'i 'Uned Prosesi Ailgylchu' a gynhyrchiwyd yng Nghlunderwen gan Dan Thomas Engineering / 'Waste Bailing Machines'. Cafodd haf llwyddiannus eleni ar draws y DU gyda'r uned yn didoli ac ailgylchu sbwriel o bob math. Maent wedi byrnu tua 650,000 o ganiau alwminiwm i ŵyliau Hyde Park, Llunain, Latitude, Boomtown, Leeds a Greenman yng Nghymru.

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO

Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR


Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# Elfyn Evans

Gofalwr Capel Bedyddwyr Gelli

Mae Elfyn Evans wedi bod yn ofalwr Capel Bedyddwyr Gelli ers 1968 ac yn ymddeol eleni ar ôl gwasanaethu am 56 mlynedd.

Ganwyd Elfyn ar 26ain o Fawrth 1937 ar fferm Penlan ger Login. Roedd yn un o un ar ddeg o blant i Pheobe a David Evans a ganddo pum brawd a phum chwaer. Dechreuodd ei addysg yn Ysgol Ffynnonwen ac wedyn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Hendy-gwyn ar Daf.

Gadawodd yr Ysgol yn 14 oed a gweithio gartre gyda'i deulu cyn symud i Rhydymerydd i weithio gydag Arthur a Lil Davies. Fel roedd y drefn bryd hynny roedd yn byw yn ei weithle a chael ei gyfri yn rhan o deulu Rhydymerydd, lle dysgodd gwaith fferm.

Cwrddodd Elfyn a Mary Watts a'i phriodi ac roedd angen eu cartref eu hunan arnynt a dyma pryd daeth y cyfle i fod yn ofalwr Capel Gelli. Symudon i fyw yn y tŷ capel, sef Glanyrafon yn y pentre' bach oedd mor enwog, cyn yr Ail Ryfel Byd, am ei ffatri wlân. Dyma le ganwyd Yvonne a Neil. Deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach bu farw Mary.

Godro ar ffermydd yr ardal oedd Elfyn cyn iddo dderbyn swydd gyda Chyngor Sir Benfro.

Yn 2000 cwrddodd Elfyn â Grace Griffiths. Roedd yn dod o Dinas ac yn gweithio fel gofalwr yn Ysgol Taskers Hwlffordd. Buon briod yn 2015.

Mae cyfrifoldebau gofalwr capel yn ehangu dros yr eiddo i gyd. Roedd yn golygu clau adeiladau'r capel a'r festri tu fewn a thu fas. Ar y tir tu allan roedd angen torri porfa a chadw'r fynwent a'r maes parcio yn gymen. Yn ogystal, byddai Elfyn yn agor beddau i'r aelodau oedd yn awyddus i gael eu claddu yno.

Mae Trysorydd presennol y capel Arfon Williams, yn canmol Elfyn am fod yn aelod ffyddlon ac ymroddedig yng Nghapel Bedyddwyr y Gelli ers blynyddoedd. Yn ogystal, mae wedi bod yn ffrind agos i Arfon ac yn arbennig yn y gorffennol i'w rieni Eileen a Johnny Williams Trebengych. Mae Arfon yn mynd ymlaen i ddweud bod Elfyn, ers yn y swydd, wedi rhoi gofal arbennig i'r capel â'r fynwent a bod yr eiddo o hyd yn edrych yn daclus. Pan mae ymwelwyr yn dod i'r Capel Elfyn sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd i ateb unrhyw gwestiwn. Mae yn llysgennad gwych iawn i'n Capel.

Dyma ddyfyniad oddi wrth Sandra Griffiths, Ysgrifennydd y Capel:

"Mae gan Elfyn gwir ac onest defosiwn tuag at les Capel Bedyddwyr Gelli. Mae o hyd wedi gwneud yn siŵr bod y capel wedi'i baratoi yn gyflawn ar gyfer gwasanaethau cymun, bedydd, angladdau, ac unrhyw ddigwyddiad arall.

Ar ran yr aelodau, diolchaf i Elfyn am ei waith a dymunaf ymddeoliad hapus iddo ef a Grace."

## Er cof a diolch am fywyd Elaine Turpin

Roedd yn syndod i ddarllen bod Elaine Turpin wedi ein gadael yn ddiweddar. Mae dyled fawr iddi gan rieni a phobl ifanc ein hardal oherwydd ei chyfraniad i helpu cenedlaethau o fyfyrwyr lwyddo yn arholiadau mathemateg TGAU. Roedd yn dod i ben a gwneud y pwnc y ddiddorol a llai dryslyd na'n hamgyffred ohono - roedd wir dalent ganddi. Ni wnawn anghofio ei haelioni, caredigrwydd a'r holl ddiddordeb roedd yn cymryd yn ei myfyrwyr.

Cydymdeimlwn gydag Andrew, brawd Elaine ac aelodau'r teulu.

## HENLLANFALLTEG

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i John Evans, Cilhengroes a fu'n dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar y 22ain o Fedi.



....hefyd i Bruce Jackson a fydd yn 60 oed ar y 27ain o Fedi.

**Penblwydd**
Penblwydd hapus i Adrian Howells o ardal Crymych a oedd yn 50 oed ar 25ain o Fedi. Oddi wrth y teulu.

G & J.M. Phillips
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HR
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

# LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn y Clwb Chwaraeon ar yr 11eg o dan lywyddiaeth Denise Harris. Bu'n llongyfarch yr aelodau cafodd lwyddiant yn Sioe y Sir a threuliwyd y cyfarfod yn trafod y rhai ddaeth i'r brig gyda Llanboidy yn dod yn ail yn y categori i'r rhai rhwng 20-99 o aelodau.
Enillydd cystadleuaeth y mis am addurno anifail bach oedd Jayne Evans. Bydd trip mis Awst yn mynd i ymweld a Stiwdio Gefftau'r Onnen yn Trap ar y 15fed o'r mis.

**Llongyfarchiadau** i Merle Evans, Delfryn ar ddod yn hen famgu unwaith eto, ganed merch fach, Riley i Gemma a Tom.

**Gwellhad Buan**
Gwellhad buan i Angela Murray sydd wedi bod yn ôl yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad a Judith a Phillip a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam, Rosina Morris, Fronhaul, yn 94 oed ar Awst 2il.

**Llongyfarchiadau**
Dymuniadau gorau i ddwy o'r ardal briododd yn Eglwys Sant Brynach ar Awst 31ain. Sara Davies a Tom Windsor, mae Sara yn ferch i Rhiannon, Llain ac i Lowri Phillips a Emyr Davies, merch Hywel a Cynthia Plas y Bwci.

## *Priodas Dda*



Priodas Sara Davies a Tom Windsor

## Carnifal y pentref

Cynhaliwyd y Carnifal blynyddol ar ddydd Sadwrn, Awst 10fed a buom yn ffodus i'w gynnal ar brynhawn hyfryd iawn.

Tywysogesau – Lois Murray a Carla James
Tywysog – Idrys James
Brenhines Dylwythen Deg – Lily James
Morwynion – Arianna Pugh a Annalise Rogers

Cafwyd cefnogaeth dda ar y diwrnod ac roedd yn braf gweld pawb yn mwynhau'r achlysur.








Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Croeso**

Ar ddechrau blwyddyn Ysgol newydd, hyfryd oedd croesawu dau ddeg pedwar o blant newydd atom. Mae dwy athrawes newydd wedi ymuno â ni hefyd sef Mrs Carys Jones a Miss Ffion Campbell. Pob dymuniad da iddyn nhw i gyd fel rhan o deulu Ysgol Griffith Jones.

**Chwaraeon**



Ar ddiwedd tymor yr Haf, daeth rhai o arweinwyr tim chwaraeon yr Urdd atom i gynnal sesiynau chwaraeon gyda nifer o'r dosbarthiadau.
Trefnodd y Llysgenhadon Chwaraeon gêm bel droed gyfeillgar rhwng y plant a'r staff. Y plant oedd yn fuddugol y tro yma gan guro'r staff 5-3!
Ar ddechrau'r tymor newydd daeth criw o dim hoci Caerfyrddin atom i gynnal sesiynau hoci gyda Blwyddyn 5 Culhwch a Myrddin.

**Gwasanaeth Gadael**



Croesawyd rhieni Dosbarth Pwyll a Myrddin atom yn ystod wythnos olaf y tymor ar gyfer  Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6. Cyflwynwyd rhodd o gyfrifiannell i bob plentyn gan aelod o'r Corff Llywodraethol Mrs Delyth Jenkins. Roedd Mrs Jenkins yn cyflawni ei dyletswydd olaf gyda ni fel llywodraethwraig ar ôl cyfnod o dros ugain mlynedd. Diolch o galon iddi am roi o'i hamser i'r Ysgol dros y blynyddoedd.

**Dysgu Awyr Agored**

Daeth cwmni 'Coginio 24' i gynnal sesiwn goginio awyr agored gyda Dosbarth Culhwch. Cafodd y plant lawer o hwyl yn paratoi cawl ffa a thatws melys gyda chaws halloumi lleol.

**Prosiect Siarc**



Cymerodd Dosbarth Culhwch ran mewn prosiect gyda Phrifysgol Abertawe i godi ymwybyddiaeth y plant am siarcod ym moroedd Cymru. Fe rhan o'r prosiect, derbyniodd yr Ysgol argraffydd 3D er mwyn i'r plant gael cyfle i ddylunio a chreu gwaith 3D. Buont hefyd ar daith i'r Gerddi Botaneg er mwyn cyflwyno'r gwaith a gyflawnwyd ganddynt.

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**

Daeth gweithgareddau'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau i ben am y flwyddyn gyda disgo ar thema Hawaii ar gyfer y plant. Trefnwyd diwrnod o hwyl ganddynt yn ystod gwyliau'r Haf ar gyfer teuluoedd yr Ysgol. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith caled ar hyd y flwyddyn.

Ysgol Griffith Jones
Sanclêr

# YSGOL HAFODWENOG

**Cystadleuaeth Celf Talog 2024**
Llongyfarchiadau i'r canlynol am lwyddo yn y rownd gyntaf yng nghystadleuaeth Celf Talog 2024:
Elin-Fflir, Mia, Tomos, Iwan, Lilly a Sophie.
Da iawn chi a phob lwc yn y rownd nesaf.

**Gwasanaeth Ffarwel**



Cawsom wasanaeth ffarwel i ddisgyblion blwyddyn 6 nôl yn mis Gorffennaf. Diolch i Sophie am y llun hyfryd i staff yr ysgol. Pob lwc i bob un ohonynt yn yr ysgol uwchradd.

**Eisteddfod Genedlaethol**
Bu rhai o'r disgyblion yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf eleni. Llongyfarchiadau i Cillian, Efa, Iwan, Lois, Marged, Owain a Sara am gystadlu yn y clocsio unigol. Llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion Dosbarth Cae Glas am gystadlu yn y grŵp clocsio a dod yn drydydd yn y gystadleuaeth. Arbennig! Da iawn chi. Diolch i Miss Lleucu Phillips a Mrs Eirlys Phillips am eu hyfforddi ac i Miss Wendy a Mrs Bowen am helpu gyda'r gwisgoedd ayyb.







# YSGOL LLYS HYWEL



Croeso i'r ddau yma sydd nawr wedi dechrau gyda ni, yn Llys Hywel, yn llawn amser.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Diwedd tymor**



Ar ddiwedd tymor yr haf, ffarweliwyd â 12 disgybl i ysgolion uwchradd cyfagos, dymunwn pob dymuniad da iddyn nhw yn eu hysgolion newydd, gwnewch y mwyaf o'r holl brofiadau sydd yn agored i chi. Cofiwch arwyddair ein ysgol; 'Cyrraedd y brig yw ein nod'.

Cyn ffarwelio â disgyblion blwyddyn chwech cynhaliwyd gwasanaeth gwobrwyo i ddathlu eu llwyddiannau yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Gweler isod restr enillwyr y tystysgrifau;

Rufus – Gwobr Ymdrechwr
Joe – Gwobr Dyfal Donc

Harvey - Gwobr Technegwr Digidol

Ché - Garddwr y flwyddyn

Toby - Gwobr Perfformiwr y flwyddyn

Poppy - Gwobr Ymdrechwr

Loti - Gwobr Parch

Gwenllian - Athletwraig y flwyddyn

Bella - Cerddor y flwyddyn

Ripley - Artist y flwyddyn

Amelia - Gwobr Creadigrwydd y flwyddyn

Enillydd gwobr Mr Henry, cyn bennaeth ysgol Llanboidy, oedd Izzie am ei chyfraniad i fywyd yr ysgol drwy gydweithio, dangos dyfalbarhad yn ei hymdrechion, cynrychioli'r ysgol mewn gwahanol weithgareddau a gweithio'n ddiwyd yn gyson. Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Trip Dysgu Sylfaen i'r Traeth**
Bu dosbarthiadau Lliwe a Sien i draeth Bentywyn yn dilyn ei is-thema 'Y Traeth'. Cafwyd diwrnod arbennig yn adeiladu cestyll tywod, cael cyfle i chwarae yn y môr a mwynhau hufen iâ blasus cyn mynd adref.

**Trip Cyfnod Allweddol 2**
Mwynhaodd dosbarthiadau Gronw a Cynin eu trip i Barc Bywyd Gwyllt Maenor, yn Ninbych y Pysgod. Cafwyd diwrnod penigamp yn gweld amryw o anifeiliaid gwahanol, bwydo'r walbaliod  a buodd rhai o'r disgyblion yn lwcus i weld Zaza y teigr bach newydd. Braf oedd cael gorffen y diwrnod gyda hufen iâ blasus.

**Mis Medi**
Estynnwn groeso cynnes i'r holl ddisgyblion newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol ym mis Medi. Rydym wedi croesawu wyth disgybl newydd a gobeithiwn gwnewch chi fwynhau eich amser yn yr ysgol.

Hoffai deulu ysgol Bro Brynach ddymuno gwellhad buan i Angela, edrychwn ymlaen i'w gweld wrth iet yr ysgol yn fuan.


**Gweithdy Hoci**
Buodd dosbarth Cynin yn ffodus i gymryd rhan mewn gweithdy blasu hoci gyda Charlotte o Glwb Hoci Athletau Caerfyrddin. Dysgodd y disgyblion sgiliau newydd fel sut i ddal ffon hoci, pasio, driblo a hyd yn oed cael cyfle i chwarae gêm.



Gweithdy hoci



Cafwyd croeso cynnes yn yr Eglwys gan y Parchedig Shirley Murphy ar gyfer bendith y bagiau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Roedd y disgyblion yn eiddgar i gymryd rhan a diolch i'r eglwys am ei rhodd o nôd lyfr i'r disgyblion.

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855


LYNDON GEORGE

**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**





**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP




**Dydd Mawrth 4.00 a 5.30pm**



**Arberth**

Clwb Rygbi SA67 7BT

Julie 07771 537037

**Dydd Mercher 4.30 a 6.00pm**



**Hendygwyn-ar-daf**

Clwb Bowlio SA34 0QB

Enfys 07900 303737

slimmingworld.co.uk

Slimming World

Jones Login

Teithiau o Safon

*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref 2024** | | |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoedd a Lerpwl** | 5* |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Gwe 22 | **Marchnad Nadolig Manceinion** | 3 |
| Sad 30 | **Gwyl Olau Longeat a Briste** | 2 |
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 8 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Sad 22 | *Sioe Gerdd Kinky Boots, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| **Mai 2025** | | |
| Dyddiad i'w drefnu! | **Gerddi Highgrove a Chaerfaddon** | 2 |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5* |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5* |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Sad 21 | *& Juliet, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Gwe 4 a Sad 5 | *Oasis, Stadiwm Principality (Bws yn unig)* | 1 |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| Sad 26 | *Sioe Gerdd Joseph a'I got amryliw, CMC* | 1 |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon—Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Fydd siawns i ennill Gwobr Taleb Teithio ar bob thaith yn ystod y flwyddyn!!

***Gwasanaeth Dwrs i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael Mis Hydref**


CYNHYRCHIAD CWMNI THEATR TORCH
GRAV
CELEBRATE 10 YEARS
Hydref
9fed | 19:30, 10fed | 14:30 & 19:30, 11eg | 19:30 12fed fydd y 200fed perfformiad | 19:30
Bydd y sioe hon yn apelio at gefnogwyr rygbi a'r rheiny sy'n hoff o ddrama dda .. dewch i fwynhau ...
Y TÎM GWREIDDIOL...
YSGRIFENNWYD GAN OWEN THOMAS
CYFARWYDDWYD GAN PETER DORAN
YN SERENNU GARETH JOHN BALE
Ac fel y dywedodd Grav ei hun, "Taclwch yn gynnar, hyd yn oed os mae'n hwyr" | Archebwch nawr!
THEATR TORCH THEATRE
torchtheatre.co.uk | 01646 695267
HEOL SAN PEDR | ABERDAUGLEDDAU | SIR BENFRO | SA73 2BU
SGANIO FI

# Gŵyl Bro'r Preseli 2024
# Hydref 11eg - 23ain



Nos Wener, Hydref 11eg am 7:30yh
yng Nghlwb Rygbi Crymych

**Noson Gomedi**

Tocynnau ar werth trwy'r Clwb Rygbi



Nos Lun, Hydref 14eg am 7:30yh yng Nghanolfan
Ddysgu Gymunedol Preseli

**Agoriad Swyddogol Arddangosfa Angharad Taris**

**gyda Meirion Jones yn Cadeirio**

Dydd Gwener, Hydref 18fed am 10:30yb
yn Neuadd Boncath

**Taith Gerdded i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg**

**o dan arweiniad Hedd Ladd-Lewis**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Benfro
Pembrokeshire



Nos Sadwrn, 19eg Hydref am 7:30yh
yn Theatr y Gromlech, Crymych

**Cyngerdd Mynediad am Ddim Taith Dathlu'r 50**

Tocynnau: £20.00 / Plant ysgol £10.00
Lluniaeth o gaws a gwin

Nos Lun, Hydref 21ain am 7:30yh yn y Crymych Arms

**Cwis Wês Glei yn 25 oed!**

**Gwobr o £100 a Tharian Her Cware Trefigin**

mewn cydweithrediad â Menter Iaith Sir Benfro

menter iaith Sir Benfro



Nos Fercher, 23ain Hydref am 7:30yh yng Nghanolfan
Ddysgu Gymunedol Preseli

**Darlith gan y bardd Elinor Gwynn**

**gyda Geraint Jones yn Cadeirio**

mewn cydweithrediad â Fforddolion Dyfed
Tocynnau: £3.00

Am fwy o wybodaeth a thocynnau ewch i
gwyl-bror-preseli.yapsody.com/
Tocynnau hefyd ar werth yn Siop Siân ac Awen Teifi.

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 4ydd Hydref | GWYLIAU BYR yn STRATFORD UPON AVON | £299 | 3 Diwrnod |
| Mercher 9fed Hydref | YNYS MANAW - Douglas - ISLE OF MAN | £635 | 6 Diwrnod |
| Gwener 11fed Hydref | PENWYTHNOS YN DINAS CARFADDON - BATH | £410 | 4 Diwrnod |
| Llun 14eg Hydref | TAITH DDIRGEL MIS HYDREF i ??????????????? | £385 | 5 Diwrnod |
| Gwener 18fed Hydref | WESTON SUPER MARE - Gwesty'r NEW OCEAN | £355 | 4 Diwrnod |
| Llun 21ain Hydref | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Hydref | Clive a'i Ffrindie yn dihuno ac yn diddanu CARLOW, IWERDDON | £395 | 4 Diwrnod |
| Gwener 1af Tachwedd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £305 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Tachwedd | WEYMOUTH - NADOLIG CYNNAR yng Ngwesty'r CROWN | £420 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Tachwedd | SIOE HEN DRACTORAU a THREFTADAETH AMAETHYDDOL | £315 | 3 Diwrnod |
| Llun 11fed Tachwedd | NADOLIG FICTORIANAIDD ar YNYS WYTH - ISLE OF WIGHT | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 11fed Tachwedd | Clychau ac Addurniade NADOLIG cynnar yn BOURNEMOUTH | £420 | 5 Diwrnod |
| Gwe 15fed Tachwedd | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD yn SIDMOUTH | £375 | 4 Diwrnod |
| Iau 21ain Tachwedd | NADOLIG llawn CELYN ac UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwe 22ain Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Gwe 29ain Tachwedd | NADOLIG o UCHELWYDD a GWIN yn BABBACOMBE | £310 | 4 Diwrnod |
| Gwe 29ain Tachwedd | TWRCI a TINSEL yng NGWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY | £345 | 4 Diwrnod |
| Sul 1af Rhagfyr | WYTHNOS GYNNAR o DDATHLU'r NADOLIG yn ST AGNES | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 6ed Rhagfyr | Ymunwch a Santa ar tren y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 6ed Rhagfyr | PENWYTHNOS ar gyfer paratoi am y NADOLIG yn LLUNDAIN | £305 | 3 Diwrnod |
| Mercher 11fed Rhagfyr | Marchnadoedd NADOLIG VALKENBURG, yr ISELDIROEDD | £635 | 4 Diwrnod |
| Gwe 13eg Rhagfyr | CYNGERDD CAROLAU NADOLIG yn NEUADD ALBERT LLUNDAIN | £405 | 3 Diwrnod |
| Llun 30ain Rhagfyr | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD yn WATERFORD IWERDDON | £540 | 4 Diwrnod |
| Llun 30ain Rhagfyr | Dathlwch y Flwyddyn Newydd yn y PALACE HOTEL PAIGNTON | £550 | 4 Diwrnod |

## 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 17eg Ionawr | ADUNIAD CWSMERIAID CWM TAF yn TORQUAY | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ionawr | DIRGELWCH Y LLOFRUDDIAETH YN Y CELTIC CAERNARFON | £285 | 3 Diwrnod |
| Gwe 31 ain Ionawr | PENWYTHNOS ARBENNIG YN WESTON SUPER MARE | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwe 7fed Chwefror | BABBACOMBE, ABATY BUCKFAST a NEWTON ABBOT | £280 | 4 Diwrnod |
| Llun 17eg Chwefror | "BYWYD AR Y MOROEDD MAWR" YN LLANDUDNO | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 23ain Chwefror | GWYLIAU HAMDDENOL CLYD AR ARFORDIR YNYS WYTH | £455 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Chwefror | CLIVE a'i FFRINDIE yn GWESTY'r CELTIC CAERNARFON | £260 | 3 Diwrnod |
| Iau 6ed Mawrth | GEM RYGBI ALBAN v CYMRU YN CAEREDIN | £449 | 4 Diwrnod |
| Sul 9fed Mawrth | PENTREF DOC MARTIN, ARFORDIR CERNYW a ST AGNES | £415 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Teithiau Undydd 2024

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 | Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 | Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 | Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 | Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 | Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 | Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus Aneurin yn 4 oed, cariad mawr Mami, Dadi, Luned, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch x



Penblwydd hapus i Nansi Gwen Thomas oedd yn 3 oed ar 29ain o Awst. Mae Nansi'n chwaer fawr i Loti a merch i Dan ac Alison.



Penblwydd hapus i Thom Davies, Plas Canol, Llanybri, yn dair oed ar Fedi 29ain. Mae Thom yn fab i Rhodri a Hannah ac yn ŵyr i Lyn a Bethan, Derlwyn Taf, San Clêr.



Penblwydd hapus yn 8 oed i Gwenno Rebecca Jones, Blaenau ar 19fed o Fedi. Llawer o gariad wrth Dad, Mami, Sara, Mamgu a Tadcu Bancyfelin a'r teulu i gyd.



Penblwydd hapus i Sara a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn flwydd oedd ar Hydref 14eg. Yn y llun, hefyd, mae ei chwaer fawr Hanna. Mae'n nhw yn ferched i Rhys a Lisa, Gellyfelen, Llanddowror ac yn wyresau i Aeron a Carys Owens, Fferm y Manor, San Cler.



Pen-blwydd hapus i Griff sy'n 8 oed ar Fedi 21ain. Ti'n fachgen hapus, bywiog, llawn jôcs a drygioni, paid byth newid! Cariad mawr wrth Dad, Mam, Efan, Mamgu Llinos, Geraint, Hen Dadcu Roy, Mamgu a Dacu Pennant, Dadcu Gwyn ac Anni. xxx

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569




Penblwydd hapus i Alaw Fflur Evans, Closteg, Llangyndeyrn a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 9 oed ar Hydref 8fed. Cariad mawr wrth Dadi a Mami, Ffion a Harri; Cari, Tadcu a Mamgu Cwmfelin a'r teulu i gyd. xx



CYFRES Wenfro

# Mwyara a mwy!

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/10/24**

**Cystadleuaeth Rhubanau Rhoswen**

Ateb: Llwyddodd Rhoswen i gipio Cwpan Y Cardis gydag 21 o bwyntiau

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

# Cofeb Twm Carnabwth



Merched Beca yn cario baner Cyfiawnder yng nghwmni'r cerflunydd Rubin Eynon a'r arlunydd Meirion Jones.



Diolch o galon i'r ddau frawd sef Wyn a Geraint Davies am eu cyfraniadau hael o £500 yr un tuag at gronfa Codi Cerflun Twm Carnabwth. Gwerthfawrogir eich haelioni yn fawr iawn.


**FFRERYLLFA STRYD FAWR ARBERTH**

39 Stryd Fawr, SA67 7AS

Ar agor:
Dydd Llun i ddydd Gwener 9yb - 6yh
Dydd Sadwrn 9yb - 6yh
Dydd Sul: 10yb - 4yp
Gŵyl y Banc - ar gau

01834 860486


*parhad o dudalen 39*

i gêm ola'r tymor. Yn anffodus colli wnaethant gan orffen yn 2il agos yn y gynghrair. Llwyddwyd hefyd i gyrraedd rownd gyn derfynol y cwpan.

Diolch i bawb a wnaeth helpu mewn unrhyw ffordd, naill ar neu oddi wrth y cae yn ystod y tymor, i sicrhau bod criced yn dal i gael ei chwarae yn Hendygwyn.

*Trefor Evans*



Tîm ieuenctid a chwaraeodd yn y rownd derfynol



Freddie Davies


**FFERYLLFA EVANS**
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444 01994 230456
**eich canolfan gofal iechyd lleol**
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

G&S Llewellyn a'i Mab

**Contractwyr Amaethyddol**
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Rygbi San Clêr

Paratôdd y clwb ar gyfer ei gêm gynghrair gyntaf yn erbyn Dinbych y Pysgod gyda'r garfan yn chwarae dwy gêm gyfeillgar a cynnal sesiwn hyfforddi yn erbyn Arberth. Roeddem yn falch o gadw carfan y tymor diwethaf yn ogystal ag ychwanegu chwaraewyr newydd ar gyfer yr hyn a fydd yn gam ymlaen y tymor hwn yn Adran 1 y Gorllewin. Dan arweiniad ein hyfforddwyr Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans mae'r garfan wedi paratoi'n dda.

Roedd gemau paratoi ar gyfer y tymor yn erbyn Llangennech (uwch gynghrair gymunedol) yn brawf da ac yn y pen draw colli 5 – 28 wnaethom ar ôl cadw'r sgôr 5 - 14 am ran helaeth o'r gêm a chwarae rygbi o safon uchel. Fe wnaethon hefyd chwarae yn erbyn Tonna gan ennill 54 - 21 gyda'r garfan gyfan yn cymryd rhan yn y gêm.

Gyda llawer o ddiddordeb yn ein gêm yn erbyn Dinbych y Pysgod a gafodd ddyrchafiad hefyd o Adran 2 llynedd, denodd y gêm dorf dda i Barc Griffith Jones. Cyrhaeddodd Dinbych y Pysgod gyda phac sylweddol ac roeddem yn disgwyl gêm anodd. Dechreuodd y gêm yn gyflym ac am 20 munud, fe wnaethom gynnal meddiant a safle maes gyda Dinbych y Pysgod heb ymddangos yn ein hanner. Sgoriwyd dau gais gan ein capten Jac Howells a troswyd y ddau gan Dan Griffiths i arwain 14 - 0. Fodd bynnag, yn rhan olaf yr hanner cyntaf dechreuodd Dinbych y Pysgod ddominyddu yn y sgrym ac wedi ildio cerdyn melyn, daethant nôl yn gyfartal 14 - 14 gyda chais cosb a trosgais.

Parhaodd y duedd hon yn yr ail hanner gyda chwarae da gan y ddau dîm a cyfleoedd wedi ei methu gan y Seintiau. Roedd cerdyn melyn arall yn galluogi Dinbych y Pysgod i arwain 24 - 17 gyda rhyw 10 munud i chwarae. Fe wnaeth y ddau dîm wrthod cyfleoedd i fynd am y pyst a gyda Dinbych y Pysgod yn ildio llinell allan yn ddwfn yn hanner y Seintiau, roeddem yn gallu torri'n rhydd a'r hyn a oedd yn ymddangos yn gyfle I sgorio cais sicr, cafodd y bêl ei tharo ymlaen yn ystod symudiad ola'r gêm. Er y byddai gêm gyfartal wedi bod yn ganlyniad teg i gem gyffrous, mae digon o bethau cadarnhaol a gwaith i'w wneud cyn ein gemau nesaf.

Roedd ein hieuenctid hefyd yn chwarae adref ar Medi 7fed gyda buddugoliaeth swmpus dros Hwlffordd 50 - 12. Mae'n nhw hefyd wedi paratoi yn dda wrth chwarae yn y gemau paratoadol gyda buddugoliaethau dros Gilfach Goch 24-0 a Cwins Caerfyrddin 31-22.

*Gwyndaf Williams*





Dau lun o gêm gyntaf yn adran 1 ddydd Sadwrn 7fed Medi *Lluniau: Chris Rees*

# Clwb Criced Hendygwyn

Daeth y tymor criced i ben unwaith eto ac er y tywydd siomedig llwyddwyd i gwblhau y mwyafrif o'r gemau. Roedd y tîm cyntaf yn ôl yn Adran 1 eleni a cafwyd tymor anghyson braidd gyda cael yr un tîm allan bob wythnos bron yn amhosib. Gorffenwyd y tymor yn dda gan ennill y tair gêm diwethaf. Roedd hyn yn meddwl bod y tîm yn gorffen yn 6ed yn yr adran gan ennill 7 o'r 16 gêm a chwaraewyd. Yn y 5ed Adran roedd yr ail dîm gan orffen yn y 4ydd safle wedi ennill 6 allan o 13 gêm. Tîm ifanc y 3ydd tîm yn gorffen yn 5ed yn Adran 6 gan ennill 4 allan o 10 gêm.

Fel arfer roedd y clwb yn darparu cyfleon i ieuenctid gyda timau dan 9,11,13,15 a 17 yn chwarae yn gyson yn Adrannau Sir Benfro. Hefyd braf oedd gweld dros 50 o blant dan 7 yn ymarfer yn gyson ar nos Lun. Llwyddodd y tîm ieuenctid i gyrraedd rownd derfynol Plat Cwpan Ormond. Mewn gêm o sgoriau isel colli fu'r hanes ond dyfarnwyd Freddie Davies o Hendygwyn yn chwaraewr y gêm.

Bu tîm y merched yn chwarae yn gyson bob nos Fawrth. Roeddynt yn chwarae yn yr Ail Adran a cafwyd tymor cyffrous gyda dyrchafiad i'r Adran Gyntaf yn mynd lawr

*parhad ar dudalen 38*




# CHWARAEON

## Clwb Pêl-droed Llanboidy



**Tymor 2024-25**

Mae tymor 2024-25 bellach wedi dechrau i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf yn dechrau ar 10 Awst, ac ers hynny wedi chwarae 6 gem. Dechreuodd tymor yr ail dîm ar ddydd Sadwrn 31 Awst. Rydym hefyd yn falch bod ein hadran iau yn parhau am yr ail flwyddyn, ac yn edrych ymlaen at weld datblygiad y timoedd iau dros y tymor.

**Tîm 1af**



Y Tîm Cyntaf yn eu cit newydd.
Diolch i DP Building Supplies am noddi unwaith eto.

Mae ein tîm cyntaf yn parhau yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, a hynny o dan arweinyddiaeth Steffan Williams a Gethin Scourfield. Diolch yn fawr iawn i Jac Griffiths am fod yn gapten gwych dros y Clwb dros y blynyddoedd diwethaf, a dymunwn yn dda iddo wrth ddychwelyd i chwarae rygbi gyda Chlwb Rygbi Crymych. Braf gweld Dafydd Makepeace yn parhau fel hyfforddwr ar y tîm gyda chefnogaeth gan Rob Morgan a Bruce Scourfield.

Ers 10fed Awst, mae'r tîm wedi chwarae 6 gêm, ennill 3 a cholli 3. Bydd ein hymarferion ar gyfer mis Medi bob nos Fawrth ar Gae Dandre, Llanboidy am 18.15yh. Croeso cynnes i bawb. Mae'r canlyniadau hyd yma isod:

10.08 - Felinfach 4-1 Llanboidy (Harry Gillard)
13.08 - Llanboidy 4-3 Crymych (Frazer Wyatt x 2, Jac Haley, Daf Jones)
17.08 - Llanboidy 1-2 Aberteifi (Calum Syddall)
21.08 - Llanboidy 3-1 Llandudoch (Daf Jones, Benji Gillard, Geth Scourfield)
28.08 - Llanboidy 4-3 Llechryd (Geth Scourfield, Frazer Wyatt, Daf Jones, gôl ei hun)
31.08 - Dewi Stars 4-0 Llanboidy

**2il Dîm**



Carfan yr ail dîm (31.08.24)

Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Dim ond un gêm mae'r ail dîm wedi chwarae hyd yma a hynny yn erbyn tîm cryf Maesglas. Bydd ein hymarferion ar gyfer mis Medi bob nos Fawrth ar Gae Dandre, Llanboidy am 18.15yh. Croeso cynnes i bawb.

31.08 - Llanboidy 1-3 Maesglas (Ollie Johns)

**Adran Iau**

Gyda thymor cyntaf erioed yr Adran Iau wedi bod yn un da'r llynedd, rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'u datblygiad yn ystod 2024-25. Bydd ein holl dimoedd iau yn chwarae yng Ngheredigion am y tymor. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â dechrau ymarferion dros yr haf. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb! Mae'r holl wybodaeth ynglŷn â'r ymarferion isod.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*

**AMSERLEN YMARFER ADRAN IAU**

| TÎM | DIWRNOD | AMSER | LLEOLIAD |
|---|---|---|---|
| D6 (Bl 1) | MAWRTH | 05.45yh | LLANBOIDY |
| D8 (Bl 2&3) | MAWRTH | 05.45yh | LLANBOIDY |
| D10 (Bl 4&5) | MAWRTH | 05.30yh | LLANBOIDY |
| D12 (Bl 6&7) | LLUN | 5.30yh | BLAENWAUN |
| D14 (Bl 8&9) | MERCHER | 06.30yh | LLANBOIDY |
| D16 (Bl 10&11) | MERCHER | 06.30yh | LLANBOIDY |